Home Office

TRWYDDEDU ARFAU TANIO:

Canllawiau Statudol ar gyfer Prif Swyddogion yr Heddlu

Cynnwys

1. Introduction ……..…….2

Pwrpas

2. Suitability checks……..……4

Gwiriadau cefndir…….4
Ymweliadau â'r cartref ac arolygon……..5
Canolwyr……..…6
Gwybodaeth am addasrwydd meddygol……...….6
Gwiriadau ychwanegol……...10
Gwiriadau ychwanegol yn ymwneud â chamdrin domestig…….……..…11
Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig: gweision…….12
Gwiriadau wrth adnewyddu…….……...13
Datgelu a Diogelu Data……...……..13

3. Assessing suitability…….……14

A: Egwyddorion cyffredinol ……14
B: Ffactorau i'w hystyried……...14
C: Asesiad……..……16
D: Asesiad addasrwydd meddygol……..19
E: Rheswm da…….……20
F: Canlyniad yr asesiad a'r penderfyniad terfynol……..20
Profion statudol ar gyfer tystysgrifau arfau tanio a drylliau haels……..…22
Pobl sydd wedi'u gwahardd o dan y Ddeddf Arfau Tanio……..….23

4. Continuous assessment……...25

Ymweliadau heb eu cyhoeddi……...25
Ildio neu gipio arfau tanio neu ddrylliau haels……...26

5. Record keeping……27

6. Duration of certificates and registrations……28

Atodiad:
Gwiriadau ac asesiadau ychwanegol ar gyfer Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig (RFDs)…….29

1. Cyflwyniad

1.1. Amlygodd yr arolygiad o drwyddedu arfau tanio gan yr heddlu gan Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn 2014-2015 yr angen am ragor o gysondeb wrth gymhwyso'r gyfraith drwyddedu arfau tanio gan yr heddlu ac argymhellwyd y dylai canllawiau cyfredol Y Swyddfa Gartref gael eu rhoi ar sylfaen statudol. Cefnogwyd hyn gan Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi yn Yr Alban yn ystod ei harolygiad o drwyddedu arfau tanio ym mis Mawrth 2018. Wedi hynny, cyflwynodd y Llywodraeth bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi canllawiau statudol i brif swyddogion yr heddlu trwy ddiwygiad i Ddeddf Arfau Tanio 1968 ('y Ddeddf 1968') a wnaed gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017.

1.2. Rhoddodd Deddf Plismona a Throsedd 2017 adran 55A yn y Ddeddf 1968, gan alluogi'rYsgrifennydd Gwladol i roi canllawiau i brif swyddogion yr heddlu o ran gweithredu eu swyddogaethau o dan y Ddeddf 1968, neu mewn cysylltiad â hi. Mae'n rhaid i brif swyddogion yr heddlu yn Lloegr, Cymru a'r Alban ystyried canllawiau o'r fath a gallu cyfiawnhau unrhyw ymadawiad fesul achos.

1.3. Mae'r canllawiau wedi cael eu cynhyrchu yn dilyn gwaith agos rhwng y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwygio a symleiddio'r broses drwyddedu arfau tanio a drylliau haels i sicrhau bod prosesau mwy cyson i'r heddlu, gweithwyr proffesiynol ac ymgeiswyr.

Pwrpas

1.4. Mae'r canllawiau'n cynnwys y prosesau a'r meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd i feddu ar arfau tanio[1] ac i fod yn Ddeliwr Arfau Tanio Cofrestredig ("RFD").Fe'i bwriedir i gynorthwyo prif swyddogion i wneud gwiriadau ac asesiadau priodol, cymesur a chyson er mwyn dod i benderfyniad gwybodus.

1.5. O dan adran 44(3A) y Ddeddf 1968, mae'n rhaid i'r llys (neu'r siryf yn Yr Alban) sy'n clywed apêl yn erbyn penderfyniad trwyddedu arfau tanio gan yr heddlu ystyried unrhyw ganllawiau a roddwyd o dan adran 55A sy'n berthnasol i'r apêl.

1.6. Mae'n rhaid cymhwyso'r canllawiau i bob cais a dderbynir, a phob penderfyniad trwydded a wneir, ar neu ar ôl eu cyhoeddi, gan gynnwys adolygiadau addasrwydd deiliaid tystysgrif sydd eisoes yn bodoli a delwyr arfau tanio cofrestredig.

1.7. Mae'r canllawiau hyn ynghyd â chanllawiau'r Swyddfa Gartref nad ydynt yn statudol ar gyfraith drwyddedu arfau tanio, ac Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona (APP) ar drwyddedu arfau tanio.Er nad oes dyletswydd gyfreithiol i ddilyn canllawiau'r Swyddfa Gartref neu APP y Coleg Plismona, mae'r rhain wedi'u darparu i gynorthwyo prif swyddogion wrth ddehongli'r gyfraith a gosod arferion gweithredol yn briodol.

1.8. Nid yw'r canllawiau'n berthnasol i drwyddedu arfau aer yn Yr Alban.

[1] Defnyddir y term "arfau tanio" yn y ddogfen hon yn gyffredinol i gyfeirio at bob arf angheuol â baril, gan gynnwys drylliau, oni bai bod angen gwahaniaethu, er enghraifft, i gwahaniaethu materion sy'n ymwneud â thystysgrifau arfau tanio yn erbyn tystysgrifau drylliau.

1.9. Mae gwiriadau ac asesiadau'r heddlu ar gyfer trwyddedau a roddir gan Y Swyddfa Gartref neu Weinidogion Yr Alban yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth uniongyrchol gan y cyrff hynny fesul achos ac nid ydynt yn dod o dan y canllawiau hyn. Fodd bynnag, gall gwybodaeth am yr egwyddorion a'r prosesau sy'n berthnasol i dystysgrifau arfau tanio a drylliau haels ac ardystio RFDs fod yn ddefnyddiol i'r heddlu wrth wneud y swyddogaethau hynny.

2. Gwiriadau addasrwydd

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r gwiriadau y dylai prif swyddogion eu cwblhau i asesu a ellir caniatáu unigolion i feddu ar arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.Mae'r gwiriadau'n berthnasol i gymeradwyo neu adnewyddu tystysgrif dryll haels neu arf tanio, neu er mwyn ardystio fel RFD.

2.2 Mae'r canllawiau'n nodi'r safonau y mae'n rhaid eu cymhwyso i sicrhau dull trylwyr a chyson wrth asesu'r risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Gwiriadau cefndir

2.3 Mae angen cwblhau gwiriadau cefndir ar gyfer pob ymgeisydd sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth neu adnewyddiad tystysgrif neu ardystiad, oni bai bod gwiriadau wedi cael eu cynnal o fewn y chwe mis diwethaf fel rhan o fonitro deiliaid tystysgrif cyfredol yn barhaus[2].

2.4 Dylaipob ymgeisydd gael ei wirio yn erbyn y cronfeydd data pherthnasol ehangaf i gasglu data euogfarnu, cuddwybodaeth a gwrthderfysgaeth.

2.5 Lle bo'r ymgeisydd yn wladolyn y DU ac mae'n wyddys eu bod wedi preswylio y tu allan i'r DU am gyfnod arwyddocaol (mwy na chwe mis yn olynol) dylid cwblhau gwiriad cefndir (gwiriad cofnodion troseddol neu'n gyfwerth) yn y wlad neu'r gwledydd perthnasol.Os nad yw'n cael ei ddarparu yn Saesneg, dylid cael cyfieithiad swyddogol a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw talu amdano.

2.6 Lle bo'r ymgeisydd yn wladolyn tramor, dylid hefyd cwblhau gwiriad cefndir (gwiriad cofnodion troseddol neu'n gyfwerth) yng ngwlad cartref yr ymgeisydd. Dylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu gwiriad cefndir (megis tystysgrif heddlu neu'n gyfwerth) o wlad ei genedligrwydd ac unrhyw wlad arall lle y mae wedi byw. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd talu am hyn, gan gynnwys cyfieithiad swyddogol i'r Saesneg.

2.7 Pan nad oes gwiriad cefndir ar gael, naill ai ar gyfer gwladolyn tramor neu wladolyn y DU gyda chyfnod arwyddocaol o breswylio tramor, dylid gwrthod y cais, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys, er enghraifft, preswylio'n hirdymor yn y DU a/neu yn lluoedd arfog Prydain (er enghraifft, pymtheg mlynedd neu'n hirach) wedi'i gyfuno ag absenoldeb unrhyw un o'r ffactorau a nodir ym mharagraffau 3.8 a 3.9.

2.8 Ar gyfer gwladolion tramor a'r DU gyda chyfnodau o breswylio tramor, mae'n bosibl na fydd y gwiriad cefndir sydd ar gael yn wiriad cofnodion troseddol. Er enghraifft, gall fod yn dystysgrif heddlu. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i brif swyddogion bennu i ba raddau y gellir ystyried y ddogfen.

2.9 Lle bo'r ymgeisydd wedi preswylio mewn ardal llu arall am gyfnod arwyddocaol o amser (hirach na chwe mis yn olynol) dylid cwblhau gwiriad yn erbyn cofnodion cuddwybodaeth lleol ar gyfer y llu hwnnw.

[2] Defnyddir y term "deiliad tystysgrif" yn gyffredinol yn y ddogfen hon i gynnwys RFDs.

2.10 Dylid gwirio unrhyw geisiadau blaenorol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys y rhai hynny a wnaed mewn ardal llu arall, am unrhyw wybodaeth berthnasol neu bryderon a gofnodwyd.

2.11 Os yw cyfnod preswylio ymgeisydd dramor neu mewn ardal llu arall wedi bod yn ddarostyngedig i wiriad blaenorol, nid oes angen ei gynnal eto.Mae'n hanfodol bod y gwiriad hwn yn cael ei gofnodi ar y system drwyddedu berthnasol.

2.12 Dylid cwblhau unrhyw wiriadau cefndir eraill y'u hystyrir yn angenrheidiol (megis y rhai a nodir ym mharagraffau 2.44 - 2.45).

2.13 Os oes unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei hamlygu o ganlyniad i wiriadau cefndir, er enghraifft os yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid yn faterol ers y cymeradwyaeth gwreiddiol neu'r adnewyddiad diwethaf, neu os y'u hystyrir fel arall yn uwch eu risg, er enghraifft oherwydd gwybodaeth berthnasol am ymddygiad neu gyflwr meddygol, mae'n debygol y bydd ymholiadau mwy helaeth yn angenrheidiol os nad oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol.

2.14 Dylid cofnodi pob cofnod y daethpwyd o hyd iddo'n ymwneud â'r ymgeisydd ar ffeil y cais. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau lle mae'r ymgeisydd yn ddioddefwr, yn lygad-dyst neu'n berson cysylltiedig yn hytrach na pherson dan amheuaeth. Trafodir asesu perthnasedd a phwysigrwydd unrhyw gofnodion y daethpwyd o hyd iddynt ym Mhennod 3 y canllawiau hyn.

Ymweliadau â'r cartref ac arolygon

2.15 Dylid bob amser cynnal ymweliad â'r cartref cyn cymeradwyo tystysgrif i ymgeisydd tro cyntaf.

2.16 Dylai ymweliadau â'r cartref gynnwys cyfweliad i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag addasrwydd fel y nodir yn y canllawiau hyn a chaniatáu arolygiad o drefniadau diogelwch.Mewn rhai achosion, dylai fod cyfweliadau neu ymholiadau ehangach, er enghraifft pan fo tystiolaeth o gamdrin domestig. Nodir canllawiau am ddiogelwch yn Llawrlyfr Safonau Diogelwch 2020.[3].

2.17 Os, yn dilyn cais am adnewyddiad, penderfynir nad yw arolygiad o drefniadau diogelwch ac agweddau eraill o'r ymweliad â'r cartref yn ofynnol (gweler paragraffau 2.55 - 2.56) gellir cwblhau cyfweliad, os yw'n ofynnol, dros y ffôn, galwad fideo neu e-bost yn hytrach nag ymweliad â'r cartref. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n gofyn i'r ymgeisydd gyfuno cyfweliad a gynhelir o bell gyda thystiolaeth bellach, megis lluniau neu fideos, a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn electronig.

2.18 Dylai ymgeiswyr RFD hefyd fod yn ddarostyngedig i gyfweliad ac arolygiad o'u lle neu lefydd busnes ac unrhyw le y bydd arfau tanio'n cael eu cadw.Dylid cynnal arolygiad wrth gymeradwyo ac adnewyddu, beth bynnag yw lefel yr asesiad risg. Trafodir canllawiau am arolygiadau RFD yn yr Atodiad i'r canllawiau hyn.

2.19 Dylid bob amser cynnal ymweliadau mewn perthynas â chymeradwyo ac adnewyddu drwy wneud apwyntiad ymlaen llaw a dylent ddigwydd ar adeg sy'n gyfleus i bawb.

[3]Ar gael ar Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio 2020

Canolwyr

2.20 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr tystysgrifau arfau tanio gynnig dau ganolwr. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr tystysgrifau drylliau haels ddarparu un canolwr.[4]Gall canolwyr fod o unrhyw gefndir, ond dylent ddiwallu'r meini prawf canlynol:

(i) preswylio ym Mhrydain Fawr;

(ii) wedi adnabod yr ymgeisydd yn bersonol am o leiaf dwy flynedd. Dylai hyn ofyn bod y canolwr wedi cysylltu â'r ymgeisydd i raddau rhesymol yn ystod y cyfnod hwnnw;

(iii) mae'n gymeriad da[5];

(iv) nid yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd[6]; ac

(v) nid yw'n swyddog heddlu sy'n gweithio ar hyn o bryd, yn gyflogai'r heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC), aelod o staff PCC, neu'n ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

2.21 Os yw'r heddlu'n ystyried bod canolwr yn anfoddhaol, dylent wahodd yr ymgeisydd i gynnig person (neu bobl) arall/eraill.

2.22 Cyn cymeradwyo tystysgrif i ymgeisydd tro cyntaf, dylid cysylltu ag o leiaf un o ganolwyr yr ymgeisydd. Gellir cysylltu â chanolwyr dros y ffôn, e-bost neu ymweliad â'r cartref yn dibynnu ar yr asesiad risg.Dylai'r canolwr o leiaf fod yn ymwybodol o'r cais, fel bod ganddo ef neu ganddi hi'r cyfle i hysbysu'r heddlu am unrhyw bryderon.Mae'n bosibl y bydd y canolwr hefyd yn cael ei ofyn am unrhyw fater yn ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i feddu ar arfau tanio.

2.23 Wrth adnewyddu tystysgrifau arfau tanio a drylliau haels, gall prif swyddogion benderfynu a oes angen cysylltu â chanolwyr.

Gwybodaeth am addasrwydd meddygol

2.24 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw trefnu i wybodaeth am eu haddasrwydd meddygol gael ei darparu gan eu Meddyg Teulu (GP) neu feddyg arall â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)[7] i adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu sy'n ymdrin â'u cais.Pan fo'r wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r

[4] Nid oes angen i RFDs gynnig canolwyr.
[5] Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cynnal gwiriadau cefndir ar y canolwr er mwyn penderfynu ar ei cymeriad/chymeriad.
[6] Ystyrir 'teulu' fel y canlynol: gwraig, gŵr, mam, tad, mab, merch, chwaer, brawd, modryb, wncwl, neiniau a theidiau a pherthnasau yng nghyfraith neu lys-berthnasau fel yr uchod.Ni ystyrir cefndryd fel teulu agos, ond dylid ystyried partneriaid sy'n cyd-fyw neu bartneriaid sifil neu bartneriaid o'r un rhyw sydd wedi priodi fel 'teulu' at y dibenion hyn ac ni ddylid eu derbyn.
[7] Defnyddir y term 'meddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r GMC i gyfeirio at feddyg gyda chofrestriad GMC llawn, arbenigwr neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer (gan gynnwys pan fo'r meddyg hwn yn darparu'r gwasanaeth dros gwmni preifat).

heddlu gan feddyg o gwmni preifat, mae'n rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol o'r feddygfa ac nid trwy'r ymgeisydd.

2.25 Dylai prif swyddogion ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan feddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r GMC ar gyfer pob person sy'n gwneud cais am naill ai'r gymeradwyaeth neu'r adnewyddiad o dystysgrif arf tanio neu ddryll haels, neu i gael eu cofrestru fel deliwr arfau tanio, i asesu unrhyw faterion o ran addasrwydd meddygol. Os nad oes gan ymgeisydd feddyg teulu yn y DU, ni fyddant yn gallu diwallu'r meini prawf i dderbyn tystysgrif arf tanio neu ddryll haels.[8]

2.26 Ym mis Gorffennaf 2019, cytunodd y Swyddfa Gartref, yr heddlu a Chymdeithas Feddygol Prydain ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r heddlu a meddygon ynghylch asesiad meddygol ar gyfer ymgeiswyr arfau tanio a monitro parhaus y rhai hynny sy'n meddu ar dystysgrif arfau tanio.[9]Yn Lloegr, mae trefniadau tebyg wedi'u nodi mewn llythyr ar y cyd o'r Brif Swyddog Meddygol a Police Scotland, wedi'i ddyddio ym mis Mawrth 2016.[10]

Rhannu gwybodaeth rhwng y meddyg teulu a'r heddlu

2.27 Mae'r ffurflen gais yn gofyn i'r ymgeisydd ddatgan cyflyrau meddygol perthnasol. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cysylltu â meddyg teulu'r ymgeisydd i gael gwybodaeth feddygol berthnasol yn ystod y broses ymgeisio ac unrhyw bryd yn ystod dilysrwydd y dystysgrif os oes pryderon am ffitrwydd parhaus yr ymgeisydd i feddu ar arfau tanio'n ddiogel.

2.28 Mae gan feddygon ddyletswydd gyfrinachedd i'w cleifion, ond mae hefyd ganddynt ddyletswydd ehangach i amddiffyn a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.[11]Yn dibynnu a oes gan ymgeisydd arfau tanio neu ddeiliad trwydded alluedd ai peidio, a ydynt yn peri risg i'w hunain a/neu i eraill, gall meddygon teulu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol, rannu gwybodaeth berthnasol â'r heddlu ar y seiliau canlynol:

- gyda chydsyniad yr unigolyn;
- ar seiliau budd y cyhoedd; neu
- mewn rhai amgylchiadau prin, os yw'n ofynnol yn gyfreithiol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y seiliau posibl am ddatgelu gwybodaeth gan feddygon teulu yng nghanllawiau'r GMC am gyfrinachedd ar www.gmc-uk.org. Y GMC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer meddygon.

Gwybodaeth feddygol sy'n ofynnol gan yr heddlu

[8] Mae'n bosibl y bydd staff milwrol sydd wedi'u lleoli dramor ac sydd â meddyg teulu Y Weinyddiaeth Amddiffyn o hyd yn cael eu hystyried fel preswylwyr yn y DU at ddibenion trwyddedu.
[9] MOU rhwng BMA, HO a'r Heddlu ynghylch ymgeiswyr meddygol (Lloegr a Chymru)
[10] Gofynion rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a meddygon teulu ar gyfer cymeradwyo/adnewyddu tystysgrifau arfau tanio/drylliau (Yr Alban)
[11] GMC. Cyfrinachedd: arferion da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion (2017). Para 60 Canllawiau'r GMC i Feddygon - cyfrinachedd ac arferion da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion

2.29 Pan fo unigolyn yn gwneud cais am dystysgrif arf tanio neu ddryll haels neu i gael ei gofrestru fel deliwr arfau tanio, bydd yr ymgeisydd yn gofyn i'w meddyg teulu, neu feddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r GMC, i ddarparu gwybodaeth i'r heddlu a fydd yn cadarnhau a yw'r ymgeisydd wedi cael diagnosis, neu'n cael ei drin neu wedi cael ei drin am unrhyw gyflwr meddygol perthnasol y gallai effeithio ar ei allu i feddu ar arf tanio'n ddiogel.Mae profforma meddygol i'w ddefnyddio at y diben hwn yn rhan o'r ffurflen gais arfau tanio a dylid ei ddatod gan yr ymgeisydd a'i drosglwyddo i'r meddyg i'w gwblhau.Defnyddir y broses hon ar gyfer adnewyddu tystysgrifau hefyd.

2.30 Ni ddylid gofyn i feddygon roi mynediad cyffredinol i gofnod meddygol ymgeisydd oherwydd gallai hyn arwain at feddygon yn torri Deddf Diogelu Data 2018. Ni ddylent gael eu gofyn i gefnogi na gwrthwynebu ceisiadau chwaith. Yr heddlu sy'n gyfrifol am benderfynu a yw person yn addas i dderbyn tystysgrif, nid y meddyg.

2.31 Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am drefnu i'r wybodaeth feddygol gael ei hanfon i'r heddlu naill ai gyda'r cais ei hun, neu fel arall, yn uniongyrchol o'r meddyg. Ni fydd cais am dystysgrif yn cael ei gymeradwyo heb wybodaeth feddygol o'r fath. Os nad yw gwybodaeth feddygol yn cael ei darparu, dylai'r heddlu hysbysu'r ymgeisydd na ellir parhau â'r cais heb y wybodaeth ofynnol gan y meddyg a bydd yn cael ei wrthod.Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cysylltu â'r ymgeisydd, neu'r meddyg yn uniongyrchol, i ofyn am wybodaeth feddygol goll cyn gwrthod, yn ôl disgresiwn y prif swyddog.

Cyflyrau meddygol perthnasol

2.32 Mae cyflyrau meddygol y gallant fod yn berthnasol yn cynnwys:

(i) Ymateb Acíwt i Straen neu ymateb acíwt i'r straen a achoswyd gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig;

(ii) meddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio neu niwed i bobl eraill;

(iii) iselder neu orbryder;

(iv) dementia;

(v) mania, anhwylder deubegwn neu salwch seicotig;

(vi) anhwylder personoliaeth;

(vii) cyflwr niwrolegol: er enghraifft Sglerosis Ymledol, clefydau Parkinson's neu Huntington's, neu epilepsi;

(viii) camdrin alcohol neu gyffuriau; ac

(ix) unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, y gallant effeithio ar feddiant diogel arfau tanio neu ddrylliau haels.

Ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn gynhwysfawr.Dylai meddygon ystyried unrhyw gyflwr meddygol neu gorfforol arall y gallai effeithio ar feddiant diogel unigolyn ar arf tanio neu ddryll haels, nawr neu yn y dyfodol. Gweler hefyd adrannau 3.34 a 3.35 pan fo claf wedi bod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 a/neu Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003.

Talu ffi

2.33 Mae'n fater rhwng yr ymgeisydd a'r meddyg a yw'r meddyg yn gofyn bod ffi'n cael ei dalu cyn ymateb i'r cais i ddarparu gwybodaeth i'r heddlu ac, os felly,lefel y ffi honno. Nid yw'n fater y dylai'r heddlu ymwneud ag ef.

Gofyn am wybodaeth feddygol gan feddyg sydd wedi'i gofrestru â'r GMC nad yw'n feddyg teulu'r ymgeisydd

2.34 Mae darparu gwybodaeth feddygol gan feddyg sydd â mynediad at gofnod meddygol yr ymgeisydd yn hanfodol i benderfynu ar lefel y risg i ddiogelwch y cyhoedd o gymeradwyo tystysgrif. Ni ddylid cymeradwyo nac adnewyddu'r dystysgrif, felly, osnad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu.

2.35 Gall ymgeisydd, os ydynt yn dymuno, gysylltu â meddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r GMC i ddarparu'r wybodaeth feddygol berthnasol i adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu.

2.36 Lle bo'r meddyg yn nodi bod problemau meddygol perthnasol ac mae'r heddlu'n gofyn am wybodaeth feddygol bellach er mwyn ystyried y cais, gall yr heddlu, yn ôl disgresiwn y prif swyddog, gysylltu â'r meddyg yn uniongyrchol i drafod y cais neu geisio eglurhad pellach.Os oes angen, dylai'r heddlu ofyn i'r ymgeisydd gysylltu â'r meddyg i gael gwybodaeth bellach, megis adroddiad meddygol, am y materion hyn. Mae unrhyw ffi sy'n ofynnol gan y meddyg ar yr adeg hon yn fater rhwng y meddyg a'r ymgeisydd. Os, ar ôl derbyn gwybodaeth bellach, oes gan yr heddlu bryderon o hyd am unrhyw agwedd o'r wybodaeth feddygol a roddwyd neu os ydynt yn dymuno cael adroddiad mwy manwl, gallant ofyn am hyn gan y meddyg, meddyg teulu'r ymgeisydd neu, os yw'n briodol, gan arbenigwr perthnasol. Dylai'r heddlu dalu'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r adroddiad ychwanegol hwn.

2.37 Os yw'r ymgeisydd ei hun wedi datgan cyflwr meddygol perthnasol ar y ffurflen gais, mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n gofyn i'r ymgeisydd gael adroddiad meddygol os oes angen, a thalu amdano, i gynorthwyo â'u hystyriaeth o addasrwydd meddygol. Os oes angen adroddiad meddygol pellach wedi hynny gan yr heddlu i gynorthwyo ag ystyried y cais, bydd yr heddlu'n talu am hyn.

Rôl Pwyllgorau Meddygol Lleol

2.38 Bydd perthnasoedd gwaith da rhwng yr heddlu a meddygon teulu lleol yn helpu sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

2.39 Gall ymgysylltu â'r Pwyllgor Meddygol Lleol helpu sicrhau set gyson o drefniadau ar waith ar draws ardal leol. Er enghraifft, os yw'r holl bartïon yn cytuno i ddatblygiadau neu bethau arloesol sy'n helpu cyflymu'r broses ymgeisio heb beryglu diogelwch y cyhoedd, mae hyn yn debygol o fod yn dderbyniol, cyhyd â bod unrhyw amrywiadau o'r prosesau a ddisgrifir yn y canllawiau hyn yn cael eu darparu'n wirfoddol, a bod y gweithdrefnau a ddisgrifir yma'n cael eu dilyn os oes unrhyw bryderon yn cael eu mynegi gan yr ymgeisydd.

Nodyn atgoffa arfau tanio ar gofnod meddygol y claf

2.40 Pan fo tystysgrif arf tanio neu ddryll yn cael ei gymeradwyo, neu fod person wedi'i gofrestru fel deliwr arfau tanio, bydd yr heddlu'n cysylltu â meddyg teulu'r ymgeisydd i ofyn iddynt roi marciwr arfau tanio ar gofnod meddygol yr ymgeisydd. Pwrpas rhoi marciwr ar y cofnod meddygol yw darparu nodyn atgoffa i'r meddyg y mae'n bosibl y bydd angen iddynt hysbysu'r heddlu os yw unigolyn yn dechrau dioddef o gyflwr meddygol perthnasol, neu os yw cyflwr perthnasol yn gwaethygu'n arwyddocaol, yn benodol pan y gallai hyn effeithio ar allu'r unigolyn i feddu ar arf tanio'n ddiogel. Bydd y marciwr ar y cofnod yn ystod dilysrwydd eu tystysgrif arf tanio neu ddryll haels neu eu cofrestriad fel deliwr arfau tanio.Caiff hyn ei ychwanegu at gofnod y claf gan y meddyg teulu ar sail ymdrechion gorau, i leihau'r risg nad yw datblygiadau neu newidiadau perthnasol o'r fath yn cael eu hadrodd i'r heddlu, a allai beryglu'r deiliad tystysgrif, aelodau o'i deulu neu ei theulu, neu'r cyhoedd ehangach.

2.41 Does dim gofyniad i feddygon teulu fonitro neu asesu claf sy'n meddu ar dystysgrif arfau tanio ar hyn o bryd, ond dylent ystyried hysbysu'r heddu os ydynt yn dod yn ymwybodol bod agweddau perthnasol o amgylchiadau deiliad trwydded wedi newid sy'n golygu efallai nad ydynt yn ddiogel i feddu ar drwydded arf tanio mwyach. Mae gan feddygon ddyletswydd gyfrinachedd i'w cleifion, ond mae hefyd ganddynt ddyletswydd ehangach i amddiffyn a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd[12]. Mae hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gytunwyd rhwng Y Swyddfa Gartref, yr heddlu a Chymdeithas Feddygol Prydain ym mis Gorffennaf 2019.Mae'n rhaid ystyried diogelwch cofnod y claf yn hollol unwaith y mae'r marciwr wedi cael ei gymhwyso.

2.42 Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am seiliau datgelu gwybodaeth yng nghanllawiau y GMC am gyfrinachedd ar www.gmc-uk.org.Mae'n agored i feddyg teulu gysylltu â'r heddlu unrhyw bryd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth sydd o bosibl yn peri pryder am unigolyn, p'un ai yw'n glaf ai peidio, sy'n meddu ar arfau tanio neu'n gwneud cais i wneud hynny.

Tynnu yn ôl, canslo, dod i ben (heb adnewyddu) neu wrthod

2.43 Mae'n rhaid i'r heddlu hysbysu'r meddyg teulu o fewn un mis os yw tystysgrif yn cael ei thynnu yn ôl neu ei chanslo, os yw'n dod i ben ac nid yn cael ei hadnewyddu, neu os yw'r cais yn cael ei wrthod. Yna gall y meddyg teulu dynnu'r marciwr arfau tanio oddi ar gofnod y claf.

Gwiriadau ychwanegol

2.44 Dylai prif swyddogion gynnal gwiriadau ychwanegol, nad ydynt yn arferol os, yn dilyn yr ymholiadau cychwynnol uchod, maent yn credu bod angen eu gwneud i asesu addasrwydd yn llawn.

2.45 Gall y gwiriadau hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

[12] GMC. Cyfrinachedd: arferion da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion (2017). Para 60: Canllawiau'r GMC i Feddygon - cyfrinachedd ac arferion da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion

(i) gwiriadau ag asiantaethau eraill, megis gweithwyr iechyd proffesiynol heblaw am y meddyg teulu, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau prawf neu grwpiau aml-asiantaeth;

(ii) gwiriadau gyda chyrff trwyddedu neu reoleiddiol eraill neu asiantaethau gorfodi'r Llywodraeth;

(iii) prawf cyffuriau neu alcohol;

(iv) gwiriadau credyd neu ariannol eraill;

(v) gwybodaeth o gyfryngau cymdeithasol agored;

(vi) cyfweliadau gydag unigolion heblaw am yr ymgeisydd neu eu canolwyr, er enghraifft, partneriaid neu gynrychiolwyr clybiau saethu a fynychwyd gan yr ymgeisydd;

(vii) Gwiriadau cefndir ar bartneriaid neu unigolion eraill sy'n byw, neu sydd â mynediad heb oruchwyliaeth i, gyfeiriad yr ymgeisydd; a

(viii) gwiriadau lle mae arwydd o gam-drin domestig, fel y nodir ym mharagraffau 2.46 – 2.50.

Gwiriadau ychwanegol gan yr heddlu'n ymwneud â chamdrin domestig

2.46 Tystiolaeth o gamdrin domestig yw un o'r ffactorau mwyaf difrifol y dylid eu hystyried wrth asesu cais (gweler paragraffau 3.24 - 3.25). Mae diffiniad cyfredol y Llywodraeth o gamdrin domestig (cyn Deddf Camdrin Domestig 2021) fel a ganlyn: '*unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, cymhellol, bygythiol, trais neu gamdrin rhwng y rhai hynny dros 16 oed sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu beth bynnag eu rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol*'[13].

2.47 Daeth y Ddeddf Camdrin Domestig yn gyfraith ar 29 Ebrill 2021 ac yn dilyn dechreuad ei darpariaethau, dylai swyddogion befformio eu hasesiadau risg yn seiliedig ar y diffiniadau fel y nodwyd yn y Ddeddf newydd. Mae diffiniad newydd camdrin domsetig yn un statudol fel y nodir yn adrannau 1 i 3 Deddf Camdrin Domestig 2021[14] a bydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi'n

[13] Gall y camdrin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: camdrin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol. Mae ymddygiad rheoli'n cynnwys amrywiaeth o weithredoedd sy'n bwriadu gwneud person yn israddol neu/ac yn ddibynnol drwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, manteisio ar eu ffynonellau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r pethau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd. Mae ymddygiad cymhellol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu a chodi ofn neu gamdrin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu codi ofn ar eu dioddefwr. Nid yw hwn yn ddiffiniad cyfreithiol. Dyma diffiniad Heddlu'r Alban o gamdrin domestig: Unrhyw ffurf o gamdrin corfforol, geiriol, rhywiol, seicolegol neu ariannol a all fod yn gyfystyr ag ymddygiad troseddol ac sy'n digwydd o fewn cyd-destun perthynas. Bydd y berthynas rhwng partneriaid (wedi priodi, yn cyd-fyw, partneriaeth sifil neu fel arall) neu gyn-partneriaid. Gall y camdrin gael ei wneud yn y cartref neu rywle arall, gan gynnwys ar-lein.

[14] Mae camdrin domestig yn fater datganoledig yn Yr Alban ac mae'n cael ei ymdrin ag ef o dan Ddeddf Camdrin Domestig (Yr Alban) 2018

ddiweddarach.[15]Dylai swyddogion ystyried y Ddeddf a'r canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau.Mae'r diffiniad o gamdrin domestig mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn ymdrin â'r berthynas rhwng y person sy'n camdrin a'r person sy'n cael ei gamdrin. Mae'r ail ran yn diffinio beth sy'n cynnwys ymddygiad ymosodol.Mae'n rhaid i'r person sy'n ymddwyn fel hynny a'r person y mae'r ymddygiad wedi'i gyfeirio ato fod yn 16 oed neu'n hŷn ac mae'n rhaid eu bod wedi'u "cysylltu'n bersonol" (fel y diffinnir yn adran 2 y Ddeddf 2021). Mae hyn yn sicrhau bod mathau gwahanol o berthnasau'n cael eu cynnwys, gan gynnwys cyn-bartneriaid ac aelodau o'r teulu.Mae'r diffiniad yn cynnwys ystod o ymddygiadau ymosodol gwahanol, gan gynnwys camdrin corfforol, emosiynol ac economaidd ac ymddygiad cymhellol a rheoli. Bydd canllawiau statudol yn darparu manylion pellach am y mathau gwahanol o gamdrin ac ymddygiad ymosodol sydd o fewn y categorïau hynny.[16]

2.48 Lle bo gwybodaeth sy'n arwydd o'r posibilrwydd o gamdrin domestig, dylid cwblhau cyfweliad â phartner presennol neu aelod o deulu'r ymgeisydd neu eu partner. Lle bo'n wyddys ac yn gymesur, dylid hefyd cwblhau cyfweliadau ag unrhyw bartneriaid blaenorol. Ni ddylai'r cyfweliadau hyn fod mewn presenoldeb yr ymgeisydd. Dylid bod yn ofalus i ystyried pob cais yn unigol.Mae angen cynnal cyfweliadau o'r fath â sensitifrwydd, a dylai swyddogion ystyried y gallai dioddefwr camdrin domestig fod yn anfodlon siarad yn agored gyda'r heddlu oherwydd eu bod yn ofn trais pellach neu cael eu dial arnynt. Mae'n rhaid trin gwybodaeth a ddarperir yn y cyfweliad yn gyfrinachol. Dylai swyddogion wedi derbyn hyfforddiant digonol fel eu bod yn ymwybodol o arwyddion camdrin domestig, a sut i gefnogi dioddefwyr a'u cadw'n ddiogel. Dylent fod yn ymwybodol y gall fod angen cymryd camau gweithredol i amddiffyn partner, aelod o deulu neu gyn-bartner yr ymgeisydd rhag cael eu dial arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r person yn cael ei gyfweld mewn perthynas â'r cais ac yn darparu gwybodaeth sy'n arwain at gais yn cael ei wrthod neu ei dynnu yn ôl.

2.48 Nid yw'n ofynnol i bartner neu aelod o deulu'r ymgeisydd roi cymeradwyaeth ar gyfer mater y dystysgrif arfau tanio, a dylid gwneud hyn yn glir iddynt.Fodd bynnag, dylid ystyried cais gan bartner neu aelod o'r teulu na ddylai'r ymgeisydd feddu ar dystysgrif.Cyfrifoldeb yr heddlu yw gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael.

2.49 Dylid cynnal gwiriadau gydag unedau camdrin domestig (neu amddiffyn y cyhoedd) yr heddlu a Hybiau Diogelu Aml-Asiantaeth (neu Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth) i sicrhau bod pob asesiad presennol ac yn y gorffennol ar gael i hysbysu'r penderfyniad trwyddedu.

2.50 Gellir gwneud gwiriadau pellach gyda phobl eraill y maent yn eu hadnabod fel sy'n gymesur.

Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig: gweision

2.51 Mae ceisiadau i gofrestru fel deliwr arfau tanio'n ofynnol (Ffurflen 116) i ddarparu manylion o bob gwas sydd, yn rhinwedd adran 8(1) Deddf Arfau Tanio 1968, wedi'u

[15] Disgwylir i'r canllawiau statudol newydd a'r diffiniad o gamdrin domestig gael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2021. Dylai swyddogion edrych ar y tudalennau Camdrin Domestig ar gov.uk i gael rhagor o wybodaeth cyn parhau.
[16] Deddf Camdrin Domestig 2021

hawdurdodi neu y byddant wedi'u hawdurdodi i feddu ar, prynu neu gaffael arfau tanio a bwledi fel rhan o fusnes arferol yr ymgeisydd.Mae RFDs hefyd yn ofynnol i ddarparu manylion gweision os ydynt yn hysbysu'r heddlu am le busnes ychwanegol (Ffurflen 116A).

2.52 Dylai'r heddlu gwblhau gwiriadau cefndir ac unrhyw wiriadau eraill y'u hystyrir yn ofynnol i bob gwas.

2.53 Os oes gan yr heddlu reswm i gredu bod cyflogaeth person penodol yn peri bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd, dylent gymryd camau, yn unol â deddfwriaeth diogelu data, i hysbysu'r RFD, yn nhermau cyffredinol, bod pryder a'r rheswm dros eu pryder.

2.54 Yr RFD sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol am addasrwydd gweision. Fodd bynnag, dylid ystyried gweithredu diwydrwydd dyladwy dros weithwyr wrth asesu addasrwydd yr RFD.Bydd methu â gweithredu ar argymhelliad yr heddlu am was heb reswm da'n tueddu dangos nad yw'r RFD yn addas.Yn Lloegr a Chymru, yn unol â'r Cynllun Datgelu Cyfraith Gyffredin, dylai'r heddlu ddatgelu, yn ysgrifenedig i'r RFD, gwybodaeth am unigolyn er mwyn galluogi'r cyflogwr i ystyried mesurau lliniaru risg o ran cyflogaeth neu waith a wneir yn wirfoddol ganddyn nhw[17]. Yn Yr Alban, mae hyn yn cael ei drafod gan y Weithdrefn Gweithredu Sylfaenol – Rhannu Gwybodaeth[18].

Gwiriadau wrth adnewyddu

2.55 Mae gwiriadau cefndir a gwiriadau meddygol yn berthnasol i adnewyddiadau yn yr un modd â chymeradwyaethau. Dylid darparu gwybodaeth feddygol gan feddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r GMC wrth wneud cais am adnewyddiad. Y tu hwnt i hyn, mae'n fater i brif swyddogion ystyried a oes unrhyw wiriadau ychwanegol yn ofynnol (gweler paragraff 2.44).

2.56 Dylai prif swyddogion ystyried ceisiadau am adnewyddiadau fesul achos. Fodd bynnag, wrth ystyried a oes angen gwiriadau pellach, mae'n bosibl y bydd y prif gwnstabl yn dymuno ystyried y ffactorau canlynol:

(i) bod y dystysgrif wedi cael ei dal am o leiaf dau gylch (10 mlynedd);

(ii) heb ddod at sylw'r heddlu yn anffurfiol yn ystod y dau gylch diwethaf am fater heblaw am droseddau traffig ar y ffordd nad ydynt yn ddifrifol;

(iii) dim pryderon am faterion arfau tanio megis anghysondebau mewn rhifau cyfresol;

(iv) dim galwadau o natur anffafriol i'r cyfeiriad yn ystod y pum mlynedd diwethaf;

(v) dim cudd-wybodaeth yn awgrymu troseddoldeb ar ran deiliad y dystysgrif neu bobl cysylltiedig;

(vi) cyswllt diweddar â'r meddyg teulu a dim pryderon yn cael eu codi; a

[17] Mae canllawiau pellach ar gael ar dudalen we Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin ar Gov.uk ar y ddolen ganlynol: Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin
[18] Mae canllawiau pellach ar gael ar: Rhannu gwybodaeth (Yr Alban)

(vii) dim pryderon yn cael eu codi gan ganolwyr.

Datgelu a Diogelu Data

2.57 Dylai prif swyddogion sicrhau bod gwybodaeth am ymgeiswyr, gweision, neu unigolion eraill yn amodol ar wiriadau'n cael ei phrosesu yn unol â darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002.

3. Asesu addasrwydd

A: Egwyddorion cyffredinol

3.1 Nodir y profion ar gyfer cymeradwyaeth, adnewyddiad neu dynnu tystysgrif arf tanio neu ddryll yn ôl o dan y Ddeddf 1968 ar ddiwedd y Bennod hon. Y brif ystyriaeth bob amser ddylai fod a ellir caniatáu i'r ymgeisydd feddu ar arf â baril angheuol heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

3.2 Mae'r holl feini prawf addasrwydd yn y Bennod hon yn berthnasol yn gyfartal i dystysgrifau arf tanio a drylliau, i RFDs ac i benderfyniadau dros gymeradwyo, adnewyddu a thynnu'n ôl.Mae rhai gofynion ychwanegol ar gyfer RFDs yn ymwneud ag angen y busnes, lleoliadau ac arferion, a drafodir yn yr Atodiad.

3.3 Dylai pob achos fod yn ddarostyngedig i asesiad risg, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael yn unol â'r ffactorau i'w hystyried yn y Bennod hon.Dylai'r prif swyddog hefyd fod yn fodlon bod gan yr ymgeisydd reswm da dros feddu ar arfau tanio. Mae canllawiau cyffredinol am resymau da wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref nad ydynt yn statudol am ddeddfwriaeth arfau tanio[19].

3.4 Mewn amgylchiadau cyfyngedig, mae'r gyfraith yn gofyn am wrthodiad neu gymeradwyaeth awtomatig (gweler paragraffau 3.43 - 3.44). Mae hefyd rhai ffactorau, sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 3.24 i 3.25, sy'n ddigon difrifol y bydd eu presenoldeb fel arfer yn arwain at wrthodiad oni bai bod tystiolaeth gadarnhaol gref ar gael i liniaru'r risg.

Perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch

3.5 Mae perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch yn bodoli os all perchnogaeth yr ymgeisydd o'r arf tanio achosi niwed i'w hun neu eraill neu amharu ar drefn da yn gyhoeddus. Gallai'r niwed neu amhariad hwn ddod o ymddygiad yr ymgeisydd ei hun neu ymddygiad eraill.

3.6 Nid oes rhaid bod yr ymgeisydd wedi bod ynghlwm ag unrhyw drais corfforol i gael ei ystyried yn addas. Er enghraifft, gall ymddygiad ymosodol, diffyg hunanreolaeth, ymddygiad di-hid, anystyriaeth i'r gyfraith mewn meysydd eraill, neu debygolrwydd rhesymol y gall unigolyn arall sy'n anaddas gael mynediad at yr arf tanio, awgrymu y gallai perchnogaeth yr ymgeisydd o'r arf tanio arwain at berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch. Gall unrhyw gysylltiad i derfysgaeth neu grwpiau neu sefydliadau gwaharddedig neu droseddu cyfundrefnol awgrymu hyn hefyd.

B: Ffactorau i'w hystyried

3.7 Dylai'r prif swyddog, wrth asesu cymeradwyaeth, adnewyddiad, neu dynnu tystysgrif arf tanio neu ddryll neu gofrestriad RFD yn ôl, sicrhau bod yr holl wybodaeth a all fod yn berthnasol i'r achos yn cael ei hystyried. Dylai'r ffactorau a restrir isod ffurfio sylfaen ar gyfer penderfyniad y prif swyddog o ran a yw perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch yn bodoli.Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, a gall yr heddlu ddefnyddio eu gwubodaeth o'r achos unigol i adnabod gwybodaeth berthnasol

[19] Canllawiau ar Gyfraith Drwyddedu Arfau Tanio, ar gael ar: Canllawiau ar Gyfraith Drwyddedu Arfau Tanio 2016

arall.Cydnabyddir na fydd yr holl wybodaeth ar gael ym mhob achos, yn enwedig lle nad yw'r gwiriadau cychwynnol ym Mhennod 2 wedi dangos unrhyw angen am ymholiadau mwy manwl.

3.8 Gall ymddygiad troseddol, neu yr honnir ei fod yn droseddol, ymgeisydd ddangos risg yn y dyfodol neu risg barhaus i ddiogelwch y cyhoedd neu i'r heddwch petaent yn meddu ar arf tanio. Gall gwybodaeth a all fod yn berthnasol i awgrymu ymddygiad troseddol neu sydd o bosibl yn droseddol gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

(i) euogfarnau, rhybuddion ac unrhyw ddatrysiadau blaenorol, ar gyfer unrhyw drosedd (gan gynnwys gyrru'n rhy gyflym ond nid yn cynnwys troseddau parcio na hysbysiadau cosb benodedig);

(ii) pob euogfarn a datrysiad tramor;

(iii) arestiadau, galwadau i'r heddlu a rhwymedigaethau;

(iv) unrhyw orchmynion sifil y mae'r ymgeisydd wedi bod yn ddarostyngedig iddynt, er enghraifft Hysbysiadau Diogelu Rhag Camdrin Domestig (DVPN) neu Orchmynion Diogelu Rhag Camdrin Domestig (DVPO) neu'r fersiynau cyfwerth yn Yr Alban, a chydymffurfiaeth â'r gorchmynion hynny;[20]

(v) tystiolaeth yn ymwneud ag achosion troseddol a wnaeth arwain at ryddfarn;

(vi) tystiolaeth, gan gynnwys cudd-wybodaeth, o unrhyw ymddygiad troseddol lle nad oedd hyn wedi arwain at euogfarn neu ddatrysiad; ac

(vii) asesiadau diogelu, gan gynnwys camdrin domestig, stelcian a thrais ar sail anrhydedd (DASH) neu'r rhai hynny a wnaed gan hybiau diogelu aml-asiantaeth.[21]

3.9 Mae gwybodaeth arall a all awgrymu bodolaeth perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

(i) cysylltiadau â throseddwyr sy'n wyddys neu droseddwyr a amheuir, gan gynnwys aelodau o gangiau neu grwpiau troseddu cyfundrefnol, neu gysylltiadau â grwpiau neu sefydliadau terfysgaeth neu waharddedig, ymddygiad ymosodol neu wrthgymdeithasol neu annog casineb yn erbyn grwpiau penodol sy'n cael eu categoreiddio gan, er enghraifft, hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;

(ii) tystiolaeth o anonestrwydd;

(iii) tystiolaeth o ymddygiad bygythiol neu gamdriniol;

(iv) tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol;

(v) tystiolaeth o ymddygiad di-hid, diffyg hunanreolaeth neu ataliaeth, neu diystyru diogelwch eraill;

(vi) Arwyddion na fydd yr unigolyn yn ymdrin â'r arf tanio'n gyfrifol;

[20] Yn seiliedig ar y troseddau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn cael eu disodli wrth i ddarpariaethau Deddf Camdrin Domestig 2021 gael eu rhoi ar waith.
[21] Yn Yr Alban, defnyddir y term 'amddiffyn' yn hytrach na 'diogelu'.

(vii) trefniadau storio nad ydynt yn ddigon diogel;

(viii) anawsterau perthynas neu drallod domestig arall;

(ix) dyledion heb eu rheoli, pwysau ariannol, gweithgarwch ariannol annormal, neu ffynonellau incwm heb eu hesbonio;

(x) cyflyrau meddygol perthnasol gan gynnwys camdrin alcohol a chyffuriau (gweler adran D isod);

(xi) achosion blaenorol o beidio â chydymffurfio â thystysgrif arf tanio neu fathau eraill o drwyddedau a ddelir; ac

(xii) unrhyw un o'r ffactorau uchod yn ymwneud â pherson heblaw am y deiliad tystysgrif sy'n byw, neu sydd â mynediad heb oruchwyliaeth, at y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau.

3.10 Yn ogystal â'r ffactorau uchod, dylai prif swyddogion ystyried unrhyw dystiolaeth gadarnhaol sy'n cefnogi'r cais, er enghraifft, tystiolaeth o adsefydlu, newid mewn amgylchiadau, cymeriad da neu hanes o berchen ar arfau tanio'n gyfrifol.

C: Asesiad

3.11 Wrth asesu a yw'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, dylai'r prif swyddog asesu:

(i) cryfder y dystiolaeth;

(ii) y cyfnod amser ers y digwyddiad (a'r ymddygiad yn y cyfamser);

(iii) a yw'n ddigwyddiad unigol neu'n rhan o batrwm ymddygiad; a'r

(iv) lefel difrifoldeb (gweler yr adrannau am y ffactorau "mwyaf difrifol" a "difrifol eraill" isod).

3.12 Mewn rhai amgylchiadau (gweler paragraffau 3.43 - 3.44), mae'r gyfraith yn gofyn am gymeradwyaeth, gwrthodiad neu dynnu'n ôl yn awtomatig, heb ystyriaeth bellach.

Cryfder y dystiolaeth

3.13 Bydd mwy o bwysigrwydd bob tro'n cael ei roi i euogfarn lle mae'r dystiolaeth wedi cael ei phrofi yn y llys. Fodd bynnag, bydd ymddygiad nad yw wedi arwain at euogfar yn dal i fod yn rhan allweddol o unrhyw ystyriaeth am addasrwydd. Gall hyn fod yn enwedig o bwysig mewn mathau o droseddau fel camdrin domestig lle mae cyfraddau adrodd yn isel.

3.14 Pan nad yw gwybodaeth wedi arwain at euogfarn, dylai prif swyddogion ystyried pa mor gredadwy yw'r wybodaeth. Dylai'r ymgeisydd gael y cyfle i wneud sylw ar wybodaeth amdanynt nad yw wedi cael ei phrofi gan y llysoedd, oni bai y bydd gwneud hynny'n peryglu archwiliad sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, yn peri risg o ddial, datgelu gwybodaeth gyfrinachol am unigolyn heblaw am yr ymgeisydd, neu ddatgelu hunaniaeth rhywun sydd wedi rhoi gwybodaeth yn gyfrinachol.

3.15 Mae'r prawf i'w wneud i asesu gwybodaeth am unrhyw ymddygiad neu gyhuddiad nad yw wedi arwain at euogfarn yn fater o gydbwysedd tebygolrwydd.Yn fras, dylai'r prif swyddog ystyried a yw'n fwy tebygol na pheidio i fod yn wir. Mae'n bosibl y bydd

gwybodaeth nad yw ei hun yn diwallu'r prawf hwnnw o hyd yn cael ei hystyried yn bwysig yng nghyd-destun gwybodaeth ehangach, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos.Dylai prif swyddogion feddwl yn gritigol am ddibynadwyedd y ffynhonnell lle mae'r cyhuddiad yn cael ei wneud yn erbyn ymgeisydd, gan gynnwys a oes gan y ffynhonnell unrhyw gymhelliant i ddiystyru'r ymgeisydd.

Hyd amser

3.16 Fel rheol cyffredinol, bydd y pwysigrwydd y dylid ei roi i ddigwyddiadau neu ymddygiad yn y gorffennol yn lleihau dros amser os nad oes unrhyw ddigwyddiadau pellach wedi bod.Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr ymddygiad.Gall un digwyddiad difrifol yn y gorffennol fod yn ddigon i ddangos perygl parhaus i ddiogelwch y cyhoedd mewn rhai achosion.

3.17 Dylid hefyd ystyried oedran yr ymgeisydd ar yr adeg honno. Gellir rhoi llai o bwysigrwydd iddo os oes yr ymgeisydd o dan 18 oed ar adeg y digwyddiad.

Patrwm ymddygiad

3.18 Dylid rhoi mwy o bwysigrwydd i wybodaeth neu gyhuddiadau'n ymwneud â phatrwm ymddygiad nag un digwyddiad o'r un math, yn enwedig os yw'r patrwm yn dangos cynnydd.

3.19 Gall prif swyddogion ystyried a yw ymddygiad yn y gorffennol wedi cael ei gysylltu â ffactor sbardun, megis defnyddio alcohol neu diwedd perthynas.Gall yr ail-ymddangosiad o'r ffactor sbarduno hwnnw fod yn arwydd o risg uwch, hyd yn oed os nad oes patrwm ymddygiad parhaus.

3.20 Wrth ystyried holl amgylchiadau'r achos, gall sawl ffactorau nad ydynt yn ddifrifol iawn gronni i awgrymu perygl i ddiogelwch y cyhoedd. Er enghraifft, gall tystiolaeth o ansefydlogrwydd domestig mewn cyfuniad â phroblemau ariannol neu alcohol neu enghraifft nad yw'n ddifrifol iawn fod yn arwydd o amgylchedd cyfnewidiol a darparu rheswm digonol i gredu bod perygl i ddiogelwch y cyhoedd, hyd yn oed petai na fyddai un ffactor yn unig yn gyfystyr â hynny.

3.21 Ni fyddai euogfarn yn y gorffennol am un trosedd, er enghraifft trosedd foduro, ei hun yn sail ddigonol am wrthod cais.

Perthnasedd

3.22 Dylai prif swyddogion asesu pa mor berthnasol yw'r wybodaeth i allu'r ymgeisydd i feddu ar arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, gan ystyried y prawf a nodir ym mharagraff 3.5 a 3.6 uchod.

3.23 Er enghraifft, mae tystiolaeth neu wybodaeth am anonestrwydd neu lwgwrwobrwyo yn debygol o fod yn fwy difrifol mewn perthynas â gallu ymgeisydd RFD i fasnachu heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, nag y byddai i allu unigolyn i feddu ar arf tanio.

Ffactorau mwyaf difrifol

3.24 Mae rhai ffactorau sy'n, os yw'r prif swyddog, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, yn credu'n rhesymol eu bod yn bresennol mewn cais, peri risg mor

ddifrifol y dylai meddu ar arfau tanio ond gael ei ganiatáu mewn amgylchiadau eithriadol.

3.25 Bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Bydd tystiolaeth (wrth gydbwyso tebygolrwydd – gweler paragraff 3.15) o ymddygiad neu droseddau mewn unrhyw un o'r categorïau canlynol, er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, fel arfer yn golygu bod tystysgrif yn cael ei gwrthod neu ei thynnu yn ôl oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gallu cael eu dangos:

(i) cysylltiad neu bod ynghlwm â therfysgaeth neu grwpiau neu sefydliadau gwaharddedig; neu ymddygiad ymosodol neu wrthgymdeithasol neu annog casineb yn erbyn grwpiau penodol sy'n cael eu categoreiddio gan, er enghraifft, hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;

(ii) cysylltiad â grŵp troseddu cyfundrefnol difrifol, neu bod ynghlwm fel arall mewn troseddu cyfundrefnol difrifol;

(iii) cysylltiad â gang, neu bod ynghlwm fel arall â gweithgareddau gangiau;

(iv) camdrin domestig;

(v) unrhyw drais arall neu fygythiadau credadwy o drais;

(vi) lladrad neu fwrgleriaeth

(vii) defnyddio arfau tanio neu arfau ymosodol eraill yn droseddol;

(viii) troseddau rhywiol; ac

(ix) unrhyw un o'r uchod mewn perthynas ag aelod o'r teulu neu gysylltiad sy'n byw yn y cyfeiriad neu sydd â mynediad heb oruchwyliaeth i'r cyfeiriad.

3.26 Lle bo tystiolaeth yn annigonol o ran cydbwysedd tebygolrwydd, gellir ei hystyried o hyd, ynghyd â ffactorau eraill fel rhan o'r asesiad cyffredinol.

Amgylchiadau eithriadol

3.27 Gellir dangos amgylchiadau eithriadol os yw'r ymgeisydd yn gallu darparu tystiolaeth gadarnhaol nad ydynt yn peri risg mwyach: er enghraifft, tystiolaeth o adsefydlu, newid mewn amgylchiadau, cyfnod hir o sefydlogrwydd ac ymddygiad cyfreithlon a thystiolaeth o gymeriad da.

3.28 Mae'n bosibl y bydd achosion lle nad yw tystysgrif yn cael ei gwrthod na'i thynnu'n ôl er gwaethaf presenoldeb un o'r ffactorau ym mharagraff 3.25 oherwydd gallai ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gael ei beryglu o ganlyniad i hynny. Mae'r penderfyniadau hyn yn fater i'r prif swyddog.

Ffactorau difrifol eraill

Yn ogystal â'r ffactorau mwyaf difrifol uchod, bydd tystiolaeth, wrth gydbwyso tebygolrwydd, o unrhyw un o'r canlynol, er nad yw'n gynhwysfawr, yn tueddu dangos perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch:

(i) trosedd bosibl y gellir ymdrin â hi ar dditiad yn unig;

(ii) cyfres o euogfarnau, rhybuddion neu ddatrysiadau eraill, lle na fyddai un ohonynt ar ben ei hun yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthod neu dynnu'n ôl;

(iii) methiant bwriadol i ddatgan euogfarnau neu gyflyrau meddygol perthnasol, p'un a fyddai'r dystysgrif wedi cael ei gwrthod petai'r datganiad priodol wedi cael ei wneud;

(iv) methiant i gydymffurfio â gofynion trwyddedu arfau tanio (yn Yr Alban, gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud ag arfau aer);

(v) camdrin alcohol neu gyffuriau a all arwain at nam o ran barnu neu golli hunanreolaeth;

(vi) cyflyrau meddygol perthnasol, yn seiliedig ar asesu'n unigol (see paragraphs 3.32 - 3.33);

(vii) ymddygiad ymosodol neu wrthgymdeithasol o natur sy'n debygol o arwain at niwed, neu ofn niwed, mewn eraill;

(x) unrhyw hanes o ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud ag arfau tanio, neu ymdrin ag eitemau peryglus eraill yn esgeulus;

(xi) ymddygiad di-hid, colli hunanreolaeth neu diffyg ystyriaeth i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, er enghraifft, yfed a gyrru; ac

(xii) unrhyw un o'r uchod mewn perthynas ag aelod o'r teulu neu gysylltiad sy'n byw yn y cyfeiriad neu sydd â mynediad heb oruchwyliaeth i'r cyfeiriad.

Anogir prif swyddogion i feddwl yn gritigol am a yw'r ffactorau hyn yn dangos y byddai ymgeisydd yn peri perygl i ddiogelwch y cyhoedd.

3.29 Lle nad yw tystiolaeth yn ddigonol o ran cydbwyso tebygolrwydd, mae'n bosibl y bydd o hyd yn cae ei hystyried ynghyd â ffactorau eraill fel rhan o'r asesiad cyffredinol.

3.30 Mae'n bosibl y bydd ffactorau eraill lle y bydd yr ymgeisydd yn meddu ar arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, yn enwedig os oedd y digwyddiad amser hir yn ôl.Gan ystyried holl ffeithiau'r achos, bydd angen i'r prif swyddog ystyried a yw unrhyw ffactorau lliniaru neu dystiolaeth gadarnhaol yn lleihau'r perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

D: Asesiad addasrwydd meddygol

3.31 Nodir y cyflyrau meddygol perthnasol ym Mhennod 2 (paragraff 2.32).

3.32 Dylai prif swyddogion ddod i gasgliadau eu hunain lle bo'n bosibl o ran arwyddocâd gwybodaeth feddygol a ddarparwyd yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad eu hunain. Er efallai eu bod yn dymuno ceisio cyngor gan swyddog meddygol yr heddlu neu ymarferydd meddygol annibynnol cymeradwy mewn achosion lle mae'r wybodaeth feddygol yn anodd ei deall, neu lle mae ei harwyddocâd o ran meddu ar arfau tanio'n aneglur, ni ddylent ymgynghori ag arbenigwyr na meddygon ymgynghorol yn ddiangen.

3.33 Nid yw'r ffaith bod person wedi cael triniaeth am salwch neu gyflyrau penodol yn eu gwneud yn anaddas yn awtomatig i feddu ar arf tanio. Un o'r ffactorau ydyw i'w ystyried gyda'r holl dystiolaeth arall yn ymwneud â chymeriad a hanes yr

ymgeisydd.Mewn achosion o'r fath, dylid ystyried y barn meddygol mwyaf diweddar, a dylid ystyried yn benodol a yw hyn yn awgrymu bod y cyflwr yn dueddol o ailddigwydd neu amrywio neu fod yn ansefydlog.

Iechyd meddwl

3.34 Dylid rhoi sylw penodol i unrhyw un sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn ysbyty, gwarcheidiaeth neu gyfyngiad yn flaenorol o dan ddarpariaethau Rhan 3 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn dilyn comisiyniad y troseddau. Mae'n bwysig i swyddogion edrych ar natur y troseddau a hyd y drefn yn y sefyllfaoedd hyn.Mae Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 yn cynnwys darpariaethau yn trafod sefyllfaoedd tebyg.

3.35 Dylai'r heddlu ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle mae ymgeiswyr wedi cael eu cadw o dan bwerau sifil Rhan 2 Deddf Iechyd Meddwl 1983 lle mae'n ofynnol ar gyfer iechyd a diogelwch yr unigolyn neu i amddiffyn pobl eraill. (Mae Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 yn cynnwys darpariaethau yn trafod sefyllfaoedd tebyg).

3.36 Ym mhob achos, dylid gwneud y penderfyniad terfynol am ffitrwydd yr ymgeisydd, boed ar sail feddygol neu fel arall, gan y swyddog â'r awdurdodau priodol yn y ffordd arferol.

E: Rheswm da

3.37 Darperir canllawiau am resymau da yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref nad ydynt yn statudol am ddeddfwriaeth arfau tanio[22].

3.38 Er bod y gyfraith yn caniatáu i dystysgrif arf tanio gael ei thynnu yn ôl oherwydd nad yw'r rheswm gwreiddiol am feddu ar arf tanio'n bodoli mwyach, ni ellir tynnu tystysgrif dryll yn ôl yn yr un modd.

F: Canlyniad yr asesiad a'r penderfyniad terfynol

3.39 Os yw'r prif swyddog yn penderfynu ei bod hi'n debygol na all yr ymgeisydd feddu ar arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, dylent ystyried, mewn perthynas â'r arfau tanio dan sylw, a ellir gosod unrhyw amodau a fyddent yn lliniaru'r perygl hwnnw. Rhestrir cyflyrau posibl yn Atodiad 3 canllawiau'r Swyddfa Gartref nad ydynt yn statudol, er y gall prif swyddogion yr heddlu osod amodau eraill sy'n briodol i amgylchiadau unigryw y maent yn eu hystyried yn gymesur ac yn angenrheidiol.Os na ellir dod o hyd i unrhyw amodau i liniaru'r perygl, dylid gwrthod neu dynnu'r dystysgrif yn ôl.

3.40 Lle bod gwybodaeth yn ddigonol i fod yn arwydd o berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, ni fydd fel arfer yn cael ei chyfiawnhau i ddod i wahanol gasgliad oherwydd yr effaith ar ragolygon cyflogaeth yr unigolyn, er y gall ystod ehangach o gyflyrau fod yn berthnasol.

3.41 Mewn perthynas â thystysgrifau arf tanio (ond nid tystysgrifau drylliau) mae maen prawf ychwanegol o "ffit i'w ymddiried ynddo ag arf tanio". Yn ogystal, gellir tynnu

[22] Canllawiau ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio, ar gael ar: Canllawiau ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio 2016

tystysgrif arf tanio yn ôl lle bo gan y prif swyddog reswm i gredu bod gan y deiliad "arferion anghymedrol neu heb fod yn iawn ei bwyll neu fel arall ddim yn ffit i'w ymddiried ynddo ag arf tanio". Felly, gall fod amgylchiadau cyfyngedig lle nad oes perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, ond ystyrir yr ymgeisydd fel nad yw'n ffit fel arall i feddu ar arf tanio. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd tystiolaeth o beidio â bod yn ffit, arferion anghymedrol neu heb fod yn iawn ei bwyll wedi ffurfio rhan o'r asesiad perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

3.42 Dylid awdurdodi penderfyniadau gan y bobl sy'n gweithio ar y lefel briodol (gweler paragraffau 3.47 – 3.48) a dylai'r ymgeisydd gael ei hysbysu am y rhesymau mewn achos o wrthodiad neu dynnu'n ôl.

Gwrthod a thynnu'n ôl yn awtomatig (pobl gwaharddedig)

3.43 Mae Adran 21 y Ddeddf 1968 yn nodi pryd y mae unigolion wedi'u gwahardd yn awtomatig rhag meddu ar arfau tanio neu fwledi, gan gynnwys rhai hynafol. Mae'r rhestr waharddedig wedi'i hatgynhyrchu ar ddiwedd y Bennod hon. Mae'n rhaid gwrthod ceisiadau gan unrhyw bobl gwaharddedig. Os yw unrhyw deiliad tystysgrif presennol yn dod yn berson gwaharddedig, mae'n rhaid tynnu eu tystysgrif yn ôl.

Cymeradwyo'n awtomatig (adran 5 deiliaid awdurdod)

3.44 O dan adran 31(1) y Ddeddf 1968 Act, nid oes gan brif swyddog ddisgresiwn i wrthod tystysgrif arf tanio o ran arfau neu fwledi sydd wedi'u gwahardd y mae awdurdod dilys yn bodoli a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Yr Alban.Yn yr un modd, o dan adran 34(3) y Ddeddf honno, ni all prif swyddog wrthod cofrestru RFD ar y sail y gallant beri perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu i'r heddwch lle mae awdurdod adran 5 wedi cael ei geisio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Yr Alban.

3.45 Dylid hysbysu unrhyw bryderon am ymgeiswyr sy'n dal awdurdod a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Yr Alban i'r Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Yr Alban cyn gynted â phosibl i alluogi adolygiad o'r awdurdod.

Awdurdodi penderfyniadau

3.46 Dylai pob penderfyniad gynnwys asesiad llawn wedi'i ddogfennu o'r holl dystiolaeth sydd ar gael a'r rhesymau dros y penderfyniad terfynol.

3.47 Dylai prif swyddogion sicrhau bod penderfyniadau risg uchel yn ymwneud â thystysgrifau arf tanio a drylliau ac RFDs yn cael eu cymeradwyo, o leiaf, gan y rheolwr trwyddedu arfau tanio. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cymeradwyo penderfyniadau risg uchel gan swyddog neu aelod o staff sy'n uwch na'r rheolwr trwyddedu arfau tanio gyda chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer trwyddedu arfau tanio. Penderfyniadau risg uchel yw'r rhai hynny lle mae ymgeiswyr yn cael eu caniatáu i feddu ar arfau tanio pan fo:

(i) cais am dystysgrif neu statws RFD yn cael ei wneud yn dilyn gwrthodiad neu dynnu'n ôl neu ildio blaenorol, gan gynnwys gan heddlu arall;

(ii) yr ymgeisydd wedi cael ei asesu fel addas, yn seiliedig ar holl ffeithiau'r achos, pan fo tystiolaeth o unrhyw un o'r ffactorau mwyaf difrifol o dan paragraffau 3.24 - 3.29;

(iii) penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â thynnu tystysgrif yn ôl yn dilyn adolygiad addasrwydd a sbardunwyd gan dystiolaeth o unrhyw un o'r ffactorau o dan paragraffau 3.24 - 3.29. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae arfau tanio wedi cael eu cipio er mwyn caniatáu i'r fath ymholiadau gael eu cwblhau a gwneir penderfyniad i ddychwelyd yr arfau tanio hynny.Lle bo arfau tanio'n cael eu ildio neu eu cipio, mae'n rhaid i'r dystysgrif arf tanio neu ddryll hefyd gael ei darparu i'r heddlu.

Swyddogion neu weithwyr yr heddlu sy'n gweithio nawr neu gyn-swyddogion neu weithwyr

3.48 Lle bo'r ymgeisydd neu'r deiliad tystysgrif yn swyddog heddlu neu'n aelod o staff presennol neu flaenorol, dylai prif swyddogion sicrhau bod sut mae'r cais yn cael ei ymdrin ag ef a'r penderfyniad yn cael ei oruchwylio gan uwch reolwr. Petai cwyn neu gwrthdrawiad buddiannau'n codi, neu unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â'r ffactorau a nodwyd yn 3.24 - 3.29, dylid cyfeirio'r mater i'r Adran Safonau Proffesiynol i gael ei chyngor.

Rhesymau dros wrthod neu dynnu'n ôl

3.49 Dylai prif swyddogion hysbysu ymgeiswyr, gan gynnwys RFDs, o bob un o'r ffactorau sy'n cyfrannu i'w penderfyniad i wrthod neu dynnu tystysgrif yn ôl, gan gyfeirio at y dystiolaeth sydd ynghlwm.Gall fod yn gyfiawn i'r heddlu gadw rhywfaint o'r ffactorau yn ôl, neu i gyd ohonynt, os y gallant ddangos y byddai datgelu'n cyflwyno risg wirioneddol, er enghraifft, i ymchwiliad presennol, os oes risg o ddial, os yw'r rheswm yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol am unigolyn heblaw am yr ymgeisydd, neu petai y gall ddatgelu'r rheswm ddatgelu hunaniaeth rhywun sydd wedi rhoi gwybodaeth yn gyfrinachol.

3.50 Mewn achos o apêl, gall y prif swyddog ystyried cais am imiwnedd buddiant y cyhoedd yn yr amgylchiadau hyn i osgoi peryglu ymchwiliad neu ffynhonnell o gudd-wybodaeth.

PROFION STATUDOL AR GYFER TYSTYSGRIFAU ARFAU TANIO A DRYLLIAU

1. Arfau tanio

Cymeradwyo:

Adran 27(1) Deddf 1968:

Bydd tystysgrif arf tanio'n cael ei chymeradwyo lle mae'r prif swyddog yn fodlon bod:

(a) yr ymgeisydd yn ffit i'w ymddiried ynddo gydag arf tanio y mae adran 1 o'r Ddeddf hon yn berthnasol ac nid yw'n unigolyn sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf hon rhag meddu ar arf tanio o'r fath;

(b) ganddo reswm da i feddu, prynu neu gaffael yr arf tanio neu'r bwledi y mae'r cais yn cael ei wneud ar eu cyfer; ac

(c) yn yr holl amgylchiadau, gellir caniatáu'r ymgeisydd i gael arf tanio neu fwledi yn ei feddiant heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

Tynnu'n ôl:

Adran 30A(2) Deddf 1968:

Gellir tynnu'r dystysgrif [arf tanio] yn ôl os oes gan brif swyddog yr heddlu reswm i gredu:

(a) bod gan y deiliad arferion anghymedrol neu heb fod yn iawn ei bwyll neu fel arall ddim yn ffit i'w ymddiried ynddo gydag arf tanio; neu

(b) na all y deiliad gael ei ganiatáu mwyach i feddu ar arf tanio neu fwledi y mae'r dystysgrif yn berthnasol iddynt heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

2. Drylliau

Cymeradwyo:

Adran 28(1) Deddf 1968:

Yn amodol ar is-adran (1A) isod, bydd tystysgrif dryll yn cael ei chymeradwyo, neu yn dibynnu ar yr achos, ei hadnewyddu gan brif swyddog yr heddlu os yw'n fodlon gellir caniatáu'r ymgeisydd i feddu ar ddryll heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

(1A) Ni fydd tystysgrif o'r fath yn cael ei chymeradwyo na'i hadnewyddu os yw prif swyddog yr heddlu--

(a) yn credu wrth reswm bod yr ymgeisydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf hon rhag feddu ar ddryll; neu

(b) yn fodlon nad oes gan yr ymgeisydd reswm da i feddu, brynu neu gaffael un ohonynt.

Tynnu'n ôl:

Adran 30C(1) Deddf 1968:

Gellir tynnu tystysgrif dryll yn ôl gan brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal y mae'r deiliad yn byw ynddi os yw'n fodlon bod y deiliad wedi'i wahardd gan y Ddeddf hon rhag meddu ar ddryll ac ni ellir ei ganiatáu i feddu ar ddryll heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

POBL SYDD WEDI'U GWAHARDD O DAN Y DDEDDF ARFAU TANIO

Adran 21 Deddf 1968 (dyfyniad):

(1) Ni all unigolyn sydd wedi cael ei ddedfrydu i'r carchar am oes neu i'r ddalfa ataliol, neu i garchariad neu hyfforddiant ceryddol am gyfnod o dair blynedd neu'n hirach neu i garchar ieuenctid neu ddalfa mewn sefydliad troseddwyr ifainc am gyfnod o'r fath, neu sydd wedi cael ei ddedfrydu i gael ei ddal am gyfnod o'r fath mewn sefydliad troseddwyr ifainc yn Yr Alban, feddu ar arf tanio neu fwledi ar unrhyw adeg.

(2) Ni all person sydd wedi cael ei ddedfrydu i'r carchar am dymor o dri mis neu'n hirach ond yn llai na thair blynedd neu i garchar ieuenctid neu i ddalfa mewn sefydliad troseddwyr ifainc am gyfnod o'r fath, neu sydd wedi cael ei ddedfrydu i'w gadw am gyfnod o'r fath mewn dalfa neu sefydliad troseddwyr ifainc yn Yr Alban neu sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn hyfforddi diogel neu orchymyn cadw a hyfforddi, feddu ar arf tanio neu fwledi ar unrhyw adeg cyn dyddiad dod i ben pum mlynedd o ddyddiad ei ryddhau.

(2A) At ddibenion yr isadran (2) uchod, mae "dyddiad ei ryddhad" yn golygu--

a) mewn achos o berson yn cael ei ddedfrydu i'r carchar gyda gorchymyn o dan adran 47(1) Deddf Cyfraith 1977 (dedfryd carchar wedi'i gyflawni'n rhannol ac wedi'i ohirio'n rhannol), y dyddiad y mae'n cwblhau'r gwasanaeth cymaint o'r ddedfryd oedd yn ofynnol i'w gyflawni yn y carchar yn ôl y gorchymyn hwnnw;

(b) mewn achos o unigolyn sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn hyfforddiant diogel—

(i) y dyddiad y mae'n cael ei ryddhau o'r ddalfa o dan y gorchymyn;

(ii) y dyddiad y mae'n cael ei ryddhau o'r ddalfa a orchmynwyd o dan adran 3 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994; neu

(iii) y dyddiad hanner ffordd trwy gyfanswm y cyfnod a nodwyd gan y llys wrth wneud y gorchymyn hwnnw, pa bynnag unsy'n ddiweddarach;

(c) yn yr achos o unigolyn sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw a hyfforddi—

(i) y dyddiad y mae'n cael ei ryddhau o'r ddalfa o dan y gorchymyn;

(Ii) y dyddiad y mae'n cael ei ryddhau o'r ddalfa fel y gorchmynwyd o dan adran 104 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000; neu

(iii) dyddiad canolbwynt tymor y gorchymyn, pa bynnag un sy'n ddiweddarach;

[Mae 2B wedi cael ei ddiddymu]

(2C) Lle —

(a) mae unigolyn wedi cael ei ddedfrydu i'r carchar am dymor o dri mis neu'n hirach, ac
(b) mae'r ddedfryd wedi'i ohirio o dan adran 189 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003,

ni all yr unigolyn feddu ar arf tanio neu fwledi ar unrhyw adeg, yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn dechrau gyda'r ail ddiwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r ddedfryd wedi pasio.

(3) Person—

(a) sy'n ddeiliad trwydded a roddwyd o dan adran 53 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 neu adran 57 Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 1937 (y mae'r adrannau'n darparu ar gyfer cadw plant a phobl ifanc sy'n cael eu heuogfarnu am drosedd difrifol, ond yn eu galluogi i gael eu rhyddhau ar drwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol); neu

(b) sy'n ddarostyngedig i gydnabyddiaeth i gadw'r heddwch neu i ymddwyn yn dda, y mae un o'r amodau yn cynnwys nad yw'n meddu, defnyddio neu'n cario arf tanio, neu'n ddarostyngedig i orchymyn cymuned yn cynnwys gofyniad na ddylai feddu, defnyddio neu gario arf tanio; neu

(c) sydd wedi, yn Lloegr, wedi cael ei ordeinio i fod yn ofalus o amod na ddylai feddu, defnyddio neu gario arf tanio;

na ddylai, unrhyw bryd pan mae ganddo'r drwydded neu y mae'n amodol i neu wedi'i ordeinio, feddu ar arf tanio neu fwledi.

(3ZA) Yn is-adran (3)(b) uchod, mae "gorchymyn cymuned" yn golygu—

(a) gorchymyn cymuned o fewn ystyr Rhan 12 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, neu orchymyn adsefydlu ieuenctid o fewn ystyr Rhan 1 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, a wnaed yn Lloegr a Chymru, neu

(b) gorchymyn gwneud iawn â'r gymuned o dan adran 227A Deddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (c 46).

(3A) Pan fo adran 19 Deddf Arfau Tanio (Gogledd Iwerddon) 1969, neu unrhyw ddeddf ar gyfer yr amser sydd mewn grym yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n cyfateb i'r adran hon, y mae unigolyn wedi'i wahardd yng Ngogledd Iwerddon rhag cael arf tanio neu fwledi yn ei feddiant, bydd hefyd yn waharddedig felly ym Mhrydain Fawr unrhyw bryd y byddai feddu arno yng Ngogledd Iwerddon yn groes i'r adran 19 hynny neu'r ddeddf gyfatebol.

4. Asesiad parhaus

4.1 Yn ogystal â'r gwiriadau wrth gymeradwyo ac adnewyddu a nodwyd ym Mhennod 2 ac, mewn perthynas ag RFDs, yn Atodiad y canllawiau hyn, dylai prif swyddogion sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi asesiad addasrwydd parhaus i feddu ar arfau tanio neu fod yn RFD rhwng cymeradwyo ac adnewyddu.

4.2 Gall y prosesau hyn gynnwys naill ai:

(i) sicrhau bod rhannau eraill o'r heddlu, gan gynnwys unedau gorchymyn a rheoli a thrais domestig (neu amddiffyn y cyhoedd) yn hysbysu'r adran drwyddedu arfau tanio'n systematig cyn gynted â phosibl am unrhyw gudd-wybodaeth neu ddigwyddiadau newydd yn ymwneud â deiliaid tystysgrif neu RFDs, boed yn brosesau awtomatig neu fel arall; neu

(ii) yr adran drwyddedu arfau tanio'n cwblhau croes-wiriadau o ddeiliaid tystysgrif ac RFDs yn erbyn pob cronfa ddata lleol a chenedlaethol a systemau cudd-wybodaeth perthnasol yn rheolaidd.

4.3 Fel y disgrifir ym mhennod 2, dylai unrhyw wybodaeth newydd, gan gynnwys pryderon cudd-wybodaeth neu feddygol, y gallai gynyddu'r lefel risg sy'n gysylltiedig â deiliad tystysgrif neu RFD sbarduno adolygiad addasrwydd, yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd ym Mhennod 3.

4.4 Os yw unrhyw wybodaeth neu gudd-wybodaeth yn cael ei derbyn yn ymwneud â cham-drin domestig, ymddygiad treisgar arall, neu unrhyw un o'r materion mwyaf difrifol fel y disgrifir ym Mhennod 3, neu unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at arfau tanio'n cael eu hildio neu eu cipio, dylid cynnal adolygiad llawn o addasrwydd deiliad y tystysgrif neu'r RFDs (ac nid y digwyddiad diweddaraf yn unig) yn syth.Gall gwybodaeth neu gudd-wybodaeth newydd am faterion difrifol eraill hefyd achosi adolygiad yn syth wrth ddisgresiwn y prif swyddog.

4.5 Gellir hefyd darparu gwybodaeth am addasrwydd deiliad tystysgrif neu RFD hefyd gan aelodau o'r cyhoedd y mae'r deiliad tystysgrif neu'r RFD yn eu hadnabod, naill ai'n uniongyrchol i'r heddlu neu i'w uned trwyddedu arfau tanio. Dylid archwilio pob

adroddiad o'r fath a'i gofnodi yn y ffeil achos. Os yw'n cael ei brofi, yna dylid cynnal adolygiad o addasrwydd parhaus y deiliad tystysgrif neu'r RFD. Dylid trin adroddiadau a wneir yn gyfrinachol fel cudd-wybodaeth a dylid cymryd camau i sicrhau nad yw ymholiadau neu achosion llys wedi hynny'n datgelu'r ffynhonnell wybodaeth.

4.6 Er bod tystiolaeth bod deiliad tystysgrif neu RFD yn cyflwyno risg uwch ond ni ystyrir ei fod yn bodloni'r trothwy ar gyfer gwrthodiad neu dynnu'n ôl, gellir cyfiawnhau ymweliadau cartref neu arolygon, cyfweliadau neu ymholiadau dilynol eraill i sicrhau addasrwydd parhaus.

Ymweliadau heb rybudd

4.7 Mewn achosion deiliaid tystysgrifau, dylai'r heddlu gynnal ymweliad heb ei gyhoeddi neu arolygiad lle y'i barnir yn angenrheidiol i wneud hynny, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth benodol yng ngoleuni bygythiad penodol, neu risg o niwed. Ni ddisgwylir i'r heddlu ymgymryd ag ymweliadau neu arolygon heb eu cyhoeddi ar adeg anghymdeithasol oni bai bod gofyniad cyfiawn a phenodol i wneud hynny er mwyn atal trosedd neu oherwydd pryderon diogelwch y cyhoedd, ac mae'r heddlu'n barnu bod y weithred hon yn gyfiawn ac yn gymesur.

4.8 Mae pŵer mynediad, yn ddarostyngedig i warant, ar gael i'r heddlu. Er bod hwn yn bŵer pwysig, ni fydd yn angenrheidiol ym mhob achos lle mae arolygiad neu ymweliad â'r cartref yn ofynnol.Disgwylir i ddeiliaid tystysgrif cyfrifol gydymffurfio â gofynion rhesymol i arolygu trefniadau diogelwch neu agweddau eraill o addasrwydd ac mae'n bosibl y bydd methu â gwneud hynny'n cael ei ystyried pan fo'r heddlu'n ystyried addasrwydd i feddu ar yr arfau tanio. I liniaru unrhyw gamddealltwriaeth ar ran deiliad y dystysgrif, dylai'r heddlu ddarparu eglurhad eglur a rhesymegol i'r deiliad tystysgrif ar adeg yr ymweliad.

4.9 Dylid ymweld â lleoliad RFDs o dro i dro i arolygu stoc mewn llaw a/neu'r gofrestr.Gofynnir i ddeiliad ganiatáu arolygon o'r fath gan swyddogion yr heddlu neu swyddogion sifil o dan adran 40(4) y Ddeddf 1968, a hynny wedi'u hawdurdodi'n ysgrifenedig gan brif swyddog yr heddlu. Mae'n rhaid dangos awdurdod ysgrifenedig o'r fath ar gais.

Ildio neu gipio arfau tanio neu ddrylliau

4.10 Lle bo gan brif swyddog bryderon difrifol am fynediad parhaus deiliad tystysgrif i arfau tanio, dylid cymryd camau gweithredu prydlon i sicrhau nad oes unrhyw niwed y gellir ei osgoi'n cael ei achosi i ddiogelwch y cyhoedd. Gall hyn olygu y bydd y deiliad tystysgrif yn cael ei wahodd i ildio ei arfau tanio'n wirfoddol tra bod ei addasrwydd parhaus yn cael ei asesu. Os nad yw'n bosibl ildio'n wirfoddol, gall pwerau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn Lloegr a Chymru neu, yn Yr Alban, pwerau cyfraith gyffredin i gipio arfau tanio mewn amgylchiadau o berygl arwyddocaol i ddiogelwch y cyhoedd, alluogi i arfau tanio gael eu cipio yn yr amgylchiadau priodol. Pan fo arfau tanio'n cael eu hildio neu eu cipio, dylid hefyd cipio'r bwledi a'r dystysgrif, a darparu derbynneb a llun yn nodi'r arfau tanio, ategolion a'r bwledi a dynnwyd.

4.11 Yn dilyn ildio neu gipio arfau tanio, dylid cynnal adolygiad llawn a dylid ymgynghori'r deiliad tystysgrif am ganlyniad yr adolygiad.Dylai'r deiliad tystysgrif gael ei hysbysu

am gynnydd yr adolygiad yn aml ac yn rheolaidd. Petai'r adolygiad yn dod i'r casgliad nad oes perygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, dylid dychwelyd yr arfau tanio, bwledi a thystysgrifau, yn amodol ar yr awdurdodiad perthnasol.

5. Cadw cofnodion

5.1 Dylai prif swyddogion gofnodi'r canlynol ar y gronfa ddata drwyddedu arfau tanio genedlaethol berthnasol:

(i) manylion enwol yr holl ymgeiswyr a deiliaid tystysgrif a statws y tystysgrifau hynny gan gynnwys yr arfau tanio a feddir arnynt;

(ii) unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd, gan gynnwys cudd-wybodaeth a honiadau a phryderon a godir hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu profi.

(iii) y rhesymau dros pob penderfyniad cymeradwyo/adnewyddu, p'un ai yw'n gymeradwyaeth neu'n wrthodiad;

(iv) manylion unrhyw adolygiad addasrwydd, gan gynnwys y rhesymau dros yr adolygiad a'i ganlyniad;

(v) manylion unrhyw apêl, gan gynnwys y canlyniad;

(vi) manylion storio'r arfau tanio;

(vii) dyddiadau ymweliadau ac arolygon, a'r mathau o arolygon (gan gynnwys arolygon RFD);

(viii) a oes marciwr meddygol wedi cael ei ychwanegu gan y meddyg teulu (os yw hynny'n wyddys);

(ix) a yw'r deiliad tystysgrif yn swyddog, cyn-swyddog, aelod neu gyn-aelod o staff yr heddlu (os yw hynny'n wyddys);

(x) canlyniad unrhyw wiriadau'n ymwneud â chyfnodau o breswylio tramor;

(xi) manylion meddyg teulu a chanolwyr yr ymgeisydd; ac

(xii) unrhyw wybodaeth arall y mae'r prif swyddog yn ei hystyried yn ddefnyddiol.

5.2 Ni ddylid dileu cofnodion oherwydd bod yr ymgeisydd yn symud i ardal llu arall.

5.3 Dylid cadw cofnodion o ymgeiswyr a deiliaid tystysgrifau ar y gronfa ddata drwyddedu arfau tanio genedlaethol yn ddiweddaredig bob amser, fel bod gwybodaeth gywir am feddu ar arfau tanio ar gael i'r heddlu lleol drwy'r PNC.

5.4 Ar gyfer RFDs, mewn achos o amrywio amod, tynnu o'r gofrestr neu ildio tystysgrif gofrestru deliwr, dylid anfon hysbysiad priodol at bob llu arall.

6. Hyd tystysgrifau a chofrestriadau

6.1 Mae tystysgrifau arf tanio a drylliau'n para am bum mlynedd (oni bai eu bod yn cael eu tynnu'n ôl). Mae cofrestriad RFD yn parhau i fod ar waith am gyfnod o dair blynedd o gymeradwyaeth y cofrestriad.

6.2 Cyfrifoldeb y deiliad yw gwneud cais amserol i gymeradwyo tystysgrif neu gofrestru fel RFD newydd. Dylai prif swyddogion anfon negeseuon atgoffa at ddeiliaid yn ddigon pell ymlaen llaw i alluogi'r broses adnewyddu gael ei chwblhau cyn i'r dystysgrif neu gofrestriad gwreiddiol ddod i ben. Dylai 12 wythnos neu'n hirach fod yn ddigonol. Dylai deiliaid tystysgrif gyflwyno llungopi (wedi'i lofnodi a'i ddyddio) o'u tystysgrif at ddibenion adnewyddu a chadw'r dystysgrif sy'n dod i ben er mwyn gallu prynu bwledi.

6.3 Os nad oes cais adnewyddu'n cael ei dderbyn, dylid gwneud ymholiadau i sicrhau nad yw'r deiliad yn meddu ar yr arfau tanio na'r bwledi y mae'r dystysgrif yn berthnasol iddynt, neu os nad yw'r dystysgrif neu'r cofrestriad wedi dod i ben eto, bod trefniadau wedi cael eu gwneud i waredu'r arfau tanio a'r bwledi cyn hynny.

6.4 O ran arfau tanio a drylliau, mae adran 28B y Ddeddf 1968 yn darparu ar gyfer tystysgrif i gael ei hestyn am gyfnod o 8 wythnos ar y mwyaf yn dilyn dyddiad dod i ben y dystysgrif. Bydd yr estyniad yn berthnasol pan fo'r cais am adnewyddiad wedi cael ei wneud o leiaf 8 wythnos cyn dyddiad dod i ben gwreiddiol y dystysgrif. Dylai'r prif swyddog geisio gwneud penderfyniad am y cais adnewyddu yn ystod y cyfnod estynedig. Mewn achos o estyniad, bydd yr ymgeisydd yn parhau i fod â hawl i feddu, prynu a chaffael arfau tanio a bwledi yn ôl amodau'r dystysgrif. Dylai prif swyddogion hwyluso'r hawl estynedig trwy ddarparu ymgeisydd gyda thystiolaeth bod y dystysgrif yn buddio o estyniad estynedig, er enghraifft trwy gydnabod ei dderbyn gan nodi bod y cais cymwys yn "amserol".

6.5 Os yw tystysgrif arf tanio neu ddryll yn dod i ben cyn i dystysgrif sydd wedi'i hadnewyddu gael ei rhoi ac mae'r deiliad tystysgrif wedi gwneud cais am adnewyddiad llai nag 8 wythnos cyn yr oedd y dystysgrif wreiddiol i fod i ddod i ben, gellir ystyried caniatâd adran 7 dros dro ond ni ddylid ei roi'n ddiofyn. Dylid darparu caniatâd dros dro gyda dyddiad dod i ben nad yw'n hirach na sy'n rhesymol i gynnwys y cyfnod prosesu disgwyliedig ac ni ddylid ei roi os nad oes cais adnewyddu wedi cael ei dderbyn.

6.6 Ni ddylai deiliaid tystysgrif gael eu gofyn i ddibynnu ar dystysgrif neu gofrestriad sydd wedi dod i ben. Byddai'n anghyfreithlon iddynt wneud hynny.

6.7 Os yw cais am amrywiad yn cael ei wneud o fewn yr amseroedd a nodwyd gan yr heddlu am geisiadau adnewyddu (gweler paragraff 6.2), dylai prif swyddogion brosesu'r cais fel y byddent ar gyfer adnewyddiad. Dylid talu'r ffi am adnewyddiad, yn hytrach na ffi adnewyddiad ac amrywiad yn cael ei chodi. Nid yw amrywiadau y gofynnir amdanynt ar adeg yr adnewyddiad yn denu ffi.

Atodiad:
Gwiriadau ac asesiadau ychwanegol ar gyfer Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig (RFDs)

Arolygon

A.1 Yn ogystal â'r gwiriadau ym Mhennod 2, dylid cynnal archwiliad ffurfiol o holl leoliadau busnes yr RFD lle y gallai arfau tanio gael eu cadw ar gyfer pob ymgeisydd RFD wrth gymeradwyo ac adnewyddu.

A.2 Yn ystod y cyfnod cofrestru tair blynedd, dylid cynnal ymchwiliadau ffurfiol pellach neu ymweliadau cyswllt neilltuol, ar gyfartaledd, o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid rhoi sylw arbennig i ymchwiliadau delwriaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio gwaharddedig a chynhyrchiant arfau tanio. Dylai'r rhain gael eu hymweld â nhw'n fwy rheolaidd i sicrhau diogelwch a bod yr holl amodau perthnasol yn cael eu cydymffurfio â nhw.

A.3 Mae Gorchymyn Plismona'r Ffiniau yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn cynnal rhaglen ymchwiliadau ei hun mewn perthynas â mewnforio ac allforio arfau tanio, sy'n cael eu cynnal ar sail asesu risg. Dylai Gorchymyn Plismona'r Heddlu a'r Ffiniau, er mwyn lleihau ymyrraeth â masnach gyfreithiol ac osgoi dyblygu, drefnu ymweliadau ar y cyd lle bo hynny'n bosibl.

A.4 Dylai'r ymchwiliad wrth gymeradwyo neu adnewyddu gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

(i) cyfweliadau sy'n asesu addasrwydd yr ymgeisydd (gweler pennod 3);

(ii) cyfweliadau sy'n asesu arbenigedd yr ymgeisydd (gweler paragraff A.6);

(iii) adnabod y gweithwyr hynny sydd â mynediad at arfau tanio ('gweision') ac asesu arferion diwydrwydd dyladwy yn ymwneud â gweithwyr neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r busnes sydd â mynediad at yr arfau tanio, neu ran yn y gweithgareddau sy'n ymwneud â'r arfau tanio (gweler paragraff A.7);

(iv) adnabod natur y busnes, gan gynnwys ei gefndir, ei gwsmeriaid a'i gyflenwyr;

(v) canfod sefydlogrwydd ariannol y busnes;

(vi) asesu cydymffurfiaeth arferion busnes gyda'r gyfraith ac amodau trwyddedu;

(vii) cynnal arolwg o'r lleoliad, i gynnwys trefniadau diogelwch a thrafodaeth am unrhyw ddwyn yn y gorffennol (gweler paragraffau 2.15 - 2.19 a 4.7 - 4.9);

(viii) cyfrifiad stoc llawn (mewn achosion delwriaethau mawr, gellir defnyddio hap-samplau helaeth);

(ix) arolwg o'r cofnodion a gedwir, gan gynnwys gwirio trafodion (gweler paragraffau A.11 – A.14).

A.5 Os yw'r arolwg cychwynnol yn datgelu testunau pryder, mae'n bosibl y bydd hi'n ofynnol i gynnal ymholiadau ychwanegol a/neu herio cyfrif y deliwr. Mae testunau pryder o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

(i) anallu i gynhyrchu cofnodion stoc (arfau tanio a bwledi);

(ii) diffyg systemau i reoli arfau tanio neu fwledi sy'n cael eu storio yn y lleoliad cofrestredig;

(iii) arfau tanio a/neu fwledi'n cael eu storio yn y fath ffordd ei bod hi'n anodd eu nodi yng nghofnodion y ddelwriaeth;

(iv) diffyg systemau ar waith i reoli mynediad heb awdurdod i arfau tanio neu fwledi; a

(v) diffyg gweithdrefnau archwilio ar gyfer cyfrifo'r cydrannau.

Arbenigedd

A.6 Bydd angen lefel resymol o brofiad a gwybodaeth am arfau tanio i RFD barhau â busnes fel deliwr arfau tanio heb berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.Dylai RFDs allu dangos gwybodaeth sylfaenol am unrhyw ddeddfwriaeth arfau tanio'n ymwneud â'u maes penodol o fusnes.Os, er enghraifft, ydynt yn rhedeg siop manwerthu, mae'n rhesymol i ddisgwyl iddynt wybod sgôp y Deddfau Prawf Baril Drylliau, sy'n ymwneud â gwerthiant arfau tanio, ac oedran y bobl y gallant werthu neu logi arfau tanio neu fwledi iddynt. Mae'n bosibl y bydd hi'n well cynnal yr asesiad fel cyfres o gwestiynau mewn cyfweliad strwythuredig, wedi'i gynllunio.

Gweision – hysbysiad a diwydrwydd dyladwy

A.7 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.51, mae'n ofynnol i RFDs ddarparu manylion eu gweision wrth ymgeisio. Gall methu â hysbysu'r heddlu am fodolaeth unrhyw weision perthnasol, i gymryd camau rhesymol i wirio addasrwydd gweision o'r fath neu weithredu ar argymhelliad yr heddlu am was heb reswm da fod yn arwydd o berygl i'r cyhoedd neu'r heddwch, hyd yn oed os nad yw'r gwas dan sylw wedi'i gyflogi mwyach.Yn Lloegr a Chymru, yn unol â Chynllun Datgelu'r Gyfraith Gyffredin, dylai'r heddlu ddatgelu, yn ysgrifenedig i'r RFD, gwybodaeth am unigolyn er mwyn galluogi'r cyflogwr i ystyried mesurau lliniaru risg o ran cyflogaeth neu waith yn cael ei wneud yn wirfoddol ganddyn nhw[23]. Yn Yr Alban, mae hyn yn cael ei drafod gan y Weithdrefn Gweithredu Sylfaenol – Rhannu Gwybodaeth[24].

Lleoliad

A.8 Mae'n rhaid i bob lleoliad busnes y mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal busnes fel deliwr gael ei roi yn y gofrestr delwyr.

A.9 Mae'n rhaid i RFD sy'n dymuno agor lleoliad busnes ychwanegol o fewn yr un ardal yr heddlu sicrhau bod y manylion penodol ar waith fel y nodwyd yn y ffurflen hysbysu yn Rhan II Amserlen 5 Rheolau Arfau Tanio 1998. Ar yr amod nad oes cwestiwn o wrthod neu dynnu cofrestriad y deliwr yn ôl, gall prif swyddog wrthod rhoi lleoliadau

[23] Mae canllawiau pellach ar gael ar dudalen we Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin ar Gov.uk ar y ddolen ganlynol: Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin
[24] Mae canllawiau pellach ar gael ar Rhannu Gwybodaeth (Yr Alban)

penodol ar y gofrestr, neu eu tynnu, ar y sail nad yw'n lle y gall y person barhau'r busnes fel deliwr arfau tanio heb beryglu diogelwch yr heddlu neu'r cyhoedd.

A.10 Lle mae gan ddelwyr leoliadau busnes mewn mwy nag un ardal, mae'n rhaid iddynt gael eu cofrestru gan brif swyddogion pob un. Dylai prif swyddogion ymgynghori â'i gilydd mewn achosion o'r fath hwn, dylai'r amodau cofrestru fod yn briodol i bob lleoliad ond nid oes rhaid iddynt fod yr un peth ym mhob ardal yr heddlu.

Gwirio trafodion

A.11 Dylid dewis sampl ar hap o gofnodion o'r gofrestr at ddibenion dilysu. Dylai'r rhif a ddewiswyd fod yn berthynol i lefel y busnes sy'n cael ei gynnal, ond dylai gynnwys:

(i) gwerthiant neu drosglwyddo arf tanio i ddeiliad tystysgrif o fewn ardal yr heddlu;

(ii) gwerthiant neu drosglwyddo arf tanio i RFD o fewn ardal yr heddlu;

(iii) gwerthiant neu drosglwyddo arf tanio i ddeiliad tystysgrif y tu allan i ardal yr heddlu; a

(iv) gwerthiant neu drosglwyddo arf tanio i RFD y tu allan i ardal yr heddlu.

A.12 Dylid hefyd cofnodi cyfanswm y trafodion a gynhelir gan y deliwr ers dyddiad yr arolwg blaenorol er mwyn i'r prif swyddog fod yn fodlon bod hyn yn gyson gyda'r amcanion a nodwyd gan y deliwr.

A.13 Mae'n bosibl y bydd disgwyl i RFDs naill ai gwrthod gwerthu, neu adrodd i'r heddlu am unrhyw drafodion y maent yn pryderu amdanynt, boed yw hynny'n ymwneud ag addasrwydd y prynwr neu'r defnydd arfaethedig o'r arf tanio. Dylid trin methiant i wneud hynny pan oedd pryder yn amlwg fel ffactor mwyaf difrifol (gweler paragraffau 3.24 a 3.25 uchod).

A.14 Dylai prif swyddogion roi cyngor am ganfod ac adrodd am drafodion amheus.

Asesu ceisiadau

A.15 Dylai prif swyddogion wrthod cais i gofrestru os ydynt yn fodlon na ellir caniatáu'r ymgeisydd i barhau busnes fel deliwr arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.Disgrifir "angen busnes" isod (gweler paragraffau A.21 - A.26). Nodir cymeradwyaeth awtomatig a gwrthodiad ym mharagraffau 3.43 to 3.44.

A.16 Wrth ystyried cais i gael ei roi ar y gofrestr delwyr arfau tanio, dylai prif swyddogion asesu swyddogion a enwir y cais. Dylid cynnal yr asesiad hwn yn yr un ffordd ag asesiad fel y nodir ym mhennod 3 er mwyn asesu a fyddai cofrestriad yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.Yn ogystal, mae problemau sy'n benodol i fasnach neu fusnes yn ymwneud ag arfau tanio a fydd yn berthnasol wrth asesu unrhyw risg i ddiogelwch y cyhoedd.Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig, i'r materion ym mharagraffau A.6 to A.10.

A.17 Dylai'r heddlu adnabod y ffactorau perthnasol ar sail eu gwybodaeth o'r achos ac asesu'r pwysigrwydd y dylid ei roi i bob un, yn ôl cryfder y dystiolaeth, hyd amser, patrwm a difrifoldeb (gweler Pennod 3). Bydd angen i Brif swyddogion ystyried a yw'r ffactorau addasrwydd cyffredinol, ynghyd â materion mwy penodol, gyda'i gilydd yn ddigonol i ddangos na ellir caniatáu'r ymgeisydd i barhau â busnes heb beryglu

dioglewch y cyhoedd neu'r heddwch.Yn ogystal â phrofion diogelwch cyhoeddus, bydd angen i brif swyddogion fod yn fodlon o angen busnes yr RFD (gweler isod). Bydd yr asesiad hwn yn ystyried maint a staffio'r busnes. Gallai'r problemau hyn hefyd fod yn berthnasol i ddiogelwch y cyhoedd, o ystyried bregusrwydd posibl busnesau bach, unig fasnachwr a busnesau sy'n gweithredu o leoliadau domestig.

A.18 Os yw'r prif swyddog yn penderfynu ei bod hi'n debygol na ellir caniatáu'r ymgeisydd i barhau busnes heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch, dylent ystyried a ellir cymhwyso unrhyw amodau a fyddent yn lliniaru'r perygl hwnnw cyn gwneud penderfyniad i wrthod (gweler paragraffau A.27 – A.30).

A.19 Mae'n bosibl y bydd cais i fod ar y gofrestr yn cael ei wrthod yn awtomatig o dan adran 34 Deddf 1968 os yw'r ymgeisydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn llys a wnaed o dan adran 45, yn dilyn euogfarn o drosedd berthnasol. Mae hyn yn ogystal â gwahardd cymeradwyo tystysgrif arf tanio i berson gwaharddedig o dan y Ddeddf rhag feddu ar arf tanio, ac adran 21 y Ddeddf 1968, sy'n ei gwneud hi'n drosedd i berson gwaharddedig feddu ar arf tanio.

A.20 Mae'r penderfyniad terfynol ar RFDs yn ddarostyngedig i'r canllawiau am lefel briodol awdurdodi a darpariaeth rhesymau dros wrthod a nodir ym mharagraffau 3.49-3.50.

Angen busnes

A.21 Mae Adran 34(1A) y Ddeddf 1968 yn darparu y gall y brif swyddol wrthod cais i gael ei roi ar y gofrestr os nad yw'n fodlon y bydd yr ymgeisydd yn ymgysylltu â busnes fel deliwr arfau tanio i raddau sylweddol neu fel rhan hanfodol o fasnach, busnes neu swydd arall.Nid yw 'sylweddol' o reidrwydd yn golygu maint ond dylai ddangos bwriad difrifol a gwirioneddol i ymgysylltu â busnes. Mae'n rhaid penderfynu ar bob achos yn unigol.

A.22 Ni fwriedir y dylid cadw'r cofrestriad yn ôl oherwydd bod y trosiant yn gymharol fach o ystyried gwasanaeth arbenigol neu wasanaeth a gyfeirir at adran gyfyngol o'r farchnad. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio darpariaethau'r deliwr i hwyluso casgliadau preifat o arfau tanio a drylliau. Ni ddylent gael eu defnyddio gan ddeliwr chwaith i ddarparu gwasanaeth i ffrindiau a chysylltiadau'n unig, yn hytrach nag i'r cyhoedd cyffredinol neu'r fasnach drylliau neu fasnachoedd eraill y gallent fod yn ymwneud ag arfau tanio.

A.23 Dylai person sydd angen prynu, meddu neu drosglwyddo arfau tanio a bwledi fel rhan hanfodol o fasnach, busnes neu swydd arall gael ei gofrestru fel deliwr i ba bynnag raddau y mae eu trafodion mewn arfau tanio. Gallai ymgeiswyr o'r fath gynnwys masnachwyr o offer cysylltiedig neu fusnesau sy'n ymgysylltu ag ymchwil a datblygu, newyddiaduraeth neu ymchwil i arfau tanio.Yn yr achosion olaf, bydd angen rhywfaint o dystiolaeth ddogfennol.

Ymgeiswyr newydd

A.24 Mae ffactorau y dylid eu hystyried cyn dod i gasgliad am fusnes sy'n debygol o gael ei gynnal yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, faint a lleoliad lleoliadau ar gyfer cynnal y busnes arfaethedig ac i ba raddau y mae unrhyw weithgarwch busnes yn cael ei gynnal. Dylai'r ymgeisydd allu dangos y byddant yn darparu gwasanaeth i'r

cyhoedd neu'r masnach drylliau neu fasnachoedd eraill y gallent fod yn ymwneud ag arfau tanio neu fwledi.

A.25 Dylai'r prif swyddog fel arfer ddisgwyl derbyn cynllun busnes, sy'n nodi natur y busnes, a fydd yn cynorthwyo'r staff trwyddedu i asesu i ba raddau y bydd yn masnachu'n arfaethedig neu a fydd delio mewn arfau tanio'n rhan hanfodol o fusnes arall. Pan nad yw cynllun busnes yn briodol, er enghraifft, mewn achos o ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu delio mewn arfau tanio neu fwledi ar gyfer eu prif fywoliaeth ac felly'n llai tebygol o 'ymgysylltu â busnes fel deliwr arfau tanio i radddau helaeth', bydd y prif swyddog am adolygu tystiolaeth arall sydd ar gael o ran angen busnes.

Ymgeiswyr sydd eisoes yn bodoli

A.26 O ran ceisiadau gan ddelwyr sydd eisoes yn bodoli, dylai fod yn ddigonol i ddod i gasgliad ar sail trafodion yn ystod y cyfnod cofrestru blaenorol gan ystyried unrhyw fasnachu yn y gorffennol diweddar ac unrhyw gynllun busnes ar gyfer y dyfodol yn benodol. Gall nifer fach o drafodion fod yn arwydd o'r math o fusnes (er enghraifft, deliwr yn arbenigo mewn arfau hŷn, treftadaeth, neu eitemau gwerth uwch) ac ni ddylai awgrymu yn ei hun fod gweithgarwch y busnes yn anghyfreithlon. Cymhwysir y prawf graddau sylweddol felly ar sail berthynol, yn hytrach na hollol, yng nghyd-destun y busnes dan sylw.

Amodau Cofrestru

A.27 Gall prif swyddog osod, amrywio neu dynnu amodau yn ôl yn amodol ar ba gofrestriad sydd i'w roi mewn grym. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai fod yn angenrheidiol i osod yr amod safonol yn unig (i) (dengys yn Atodiad 6 Canllawiau'r Swyddfa Gartref nad ydynt yn statudol[25]). Nodir amodau dewisol eraill yn Rhan 4 Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio 2020[26]. Cyn dod i benderfyniad ar ba amodau ychwanegol, os o gwbl, y dylid eu gosod ar gofrestriad, dylid trafod y mater gyda'r RFD i sicrhau na fydd yr amodau arfaethedig, tra'n ymarferol ac yn effeithiol, yn rhoi baich gormodol ar y deliwr.

A.28 Mae'n rhaid nodi amodau o'r fath yn y dystysgrif gofrestru. Lle bo amod yn cael ei osod, amrywio, neu ei dynnu'n ôl yn ystod cyfnod y dystysgrif, mae'n rhaid i'r prif swyddog roi rhybudd i'r deliwr yn ysgrifenedig, gan roi manylion. Mae'n bosibl y bydd prif swyddog, wedi rhoi'r hysbysiad hwnnw, yn gofyn am y dystysgrif gofrestru yn ôl o fewn 21 diwrnod er mwyn ei diwygio. Bydd y cyfnod rhybudd hwn yn caniatáu amser i unrhyw gynrychiolaethau gael eu gwneud i brif swyddogion.

A.29 Dylid defnyddio amodau i sicrhau bod RFD yn cymryd rhagofalon rhesymol i ddiogelu eu arfau tanio a bwledi. Dylai swyddogion atal trosedd, mewn ymgynghoriad â'u hadrannau arfau tanio, ystyried yn ofalus y lefel diogelwch sydd ei hangen yng ngoleuni amgylchiadau pob achos. Gall amgylchiadau amrywio rhwng un ardal a'r llall a rhwng un deliwr neu leoliad a rhai eraill. Bydd llawer yn dibynnu ar lefel y risg a'r camau sy'n ymarferol i'w cymryd. Ni ddylid defnyddio amod o'r fath i gyfyngu ar natur y busnes dan sylw'n fympwyol.(Dylai gofynion diogelwch ar gyfer delwyr sy'n

[25] Canllawiau ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio, ar gael ar: Canllawiau ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio 2016
[26] Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio, ar gael ar: Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio 2020

masnachu mewn arfau aer yn unig fel arfer fod yn gyfwerth â lefel 1 o' Lawlyfr Diogelwch Arfau Tanio 2020.)

A.30 Lle bo person yn ymdrin ag un math o arf yn unig neu mewn ystod cyfyngol o arfau ar adeg y cais, gall fod yn briodol cynnwys amod i'r effaith y dylid hysbysu unrhyw newid yn natur y busnes i brif swyddog yr heddlu heb oedi, fel y gellir gosod cyfyngiadau diogelu pellach pe bai angen. Ni ddylid defnyddio amod o'r fath i gyfyngu ar natur y busnes dan sylw'n fympwyol.

PROFION STATUDOL AR GYFER DELWYR ARFAU TANIO COFRESTREDIG (RFDs)

RFD (cymeradwyo)
Adran 34 Deddf 1968:

(1) Ni all prif swyddog yr heddlu gofrestru ymgeisydd fel deliwr arfau tanio os yw wedi'i wahardd rhag cael ei gofrestru fel hynny o dan orchymyn gan lys ym Mhrydain Fawr a wnaed o dan adran 45 y Ddeddf hon, neu o dan orchymyn gan lys yng Ngogledd Iwerddon o dan adran 8(5) Deddf Arfau Tanio 1920 neu unrhyw ddeddfiad Senedd Gogledd Iwerddon sy'n diwygio neu sydd wedi'i ddisodli ar gyfer yr adran honno.

(1A) Mae'n bosibl y bydd prif swyddog yr heddlu'n gwrthod cofrestru ymgeisydd oni bai ei fod yn fodlon y bydd yr ymgeisydd yn ymgysylltu â busnes fel deliwr arfau tanio i raddau sylweddol neu fel rhan hanfodol o fasnach, busnes neu swydd arall.

(2) Yn amodol ar is-adran (3) isod, mae'n bosibl y bydd prif swyddog yr heddlu'n gwrthod cofrestru ymgeisydd, os yw'n fodlon na ellir caniatáu'r ymgeisydd i barhau â busnes fel deliwr arfau tanio heb berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

(3) Mewn achos o berson ar gyfer yr amser yn cael ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 5 y Ddeddf hon i fasnachu, gwerthu neu drosglwyddo arfau neu fwledi sydd wedi'u gwahardd, ni fydd prif swyddog yr heddlu'n gwrthod rhoi ei enw yn y gofrestr ar y sail na all ef barhau â busnes fel deliwr arfau tanio heb berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

(4) Gall prif swyddog yr heddlu, os yw'n fodlon bod lleoliad busnes yr hysbyswyd iddo ef o dan adran 33(3) y Ddeddf hon gan ymgeisydd cofrestriad yn le na ellir caniatáu'r person i barhau â busnes yno fel deliwr arfau tanio heb berygl i'r cyhoedd neu'r heddwch, wrthod nodi'r lleoliad busnes hwnnw yn y gofrestr.

Amodau cofrestru
Adran 36 Deddf 1968

(1) Gall prif swyddog yr heddlu osod amodau ar unrhyw adeg y mae cofrestriad person fel deliwr arfau tanio'n ddarostyngedig iddynt, a gall amrywio neu dynnu unrhyw amod o'r fath yn ôl, naill ai ei hun neu wrth i'r deliwr wneud y cais.

(2) Bydd prif swyddog yr heddlu'n nodi'r amodau ar gyfer yr amser mewn grym o dan yr adran hon yn y dystysgrif gofrestru a roddwyd i'r deliwr tanio a, lle bo unrhyw amod o'r fath yn cael ei osod, ei amrywio neu ei dynnu'n ôl yn ystod cyfnod y dystysgrif gofrestru, bydd prif swyddog yr heddlu yn--
(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r deliwr o'r amod neu'r amrywiad (gan roi manylion) neu o'r dirymiad, fel y bo'n berthnasol; a
(b) o bosibl yn gofyn i'r deliwr ddarparu ei dystysgrif gofrestru o fewn 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, at ddiben diwygio'r dystysgrif.

(3) Gall person sydd yn anfodlon gan y gosodiad neu'r amrywiad, neu'r gwrthodiad i amrywio neu dynnu'n ôl, o unrhyw amod o gofrestriad deliwr arfau tanio, yn unol ag adran 44 y Ddeddf hon, apelio yn erbyn y gosodiad, amrywiaeth neu wrthodiad.

RFD (Tynnu enw deliwr neu leoliad busnes o'r gofrestr)
Adran 38 Deddf 1968

(1) Os yw prif swyddog yr heddlu, ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol i berson y mae ei enw ar y gofrestr yn fodlon--
(a) nad yw'r person yn parhau â busnes fel deliwr arfau tanio;
(b) nad oes gan y person leoliad busnes yn yr ardal mwyach; na
(c) na ellir caniatáu i'r person barhau â busnes fel deliwr arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch,

bydd (yn amodol ar yr adran hon) yn peri i enw'r person hwnnw gael ei dynnu o'r gofrestr.

(2) Yn yr achos o berson yn cael ei awdurdodi ar hyn o bryd gan (yr Ysgrifennydd Gwladol) o dan adran 5 y Ddeddf hon i fasnachu, gwerthu neu drosglwyddo arfau neu fwledi sydd wedi'u gwahardd, ni fydd prif swyddog yr heddlu'n tynnu ei enw o'r gofrestr ar y sail na ellir ei ganiatáu i barhau â busnes fel deliwr arfau tanio heb beryglu diogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

(3) Os yw prif swyddog yr heddlu'n fodlon bod person sydd wedi'i gofrestru fel deliwr arfau tanio wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau cofrestru sydd ar waith o dan adran 36 y Ddeddf hon, gall dynnu naill ai enw'r person hwnnw neu unrhyw un o'i leoliadau busnes y mae'r amod yn berthnasol iddynt.

(4) Os yw prif swyddog yr heddlu'n fodlon bod lle a roddwyd yn y gofrestr fel lleoliad busnes person yn un na all person gael ei ganiatáu i barhau â busnes fel deliwr arfau tanio yno heb beryglu diogelwch yr heddlu neu'r heddwch, gall dynnu'r lleoliad hwnnw o'r gofrestr.

(5) Bydd y brif swyddog yn achosi i enw person gael ei dynnu o'r gofrestr os yw'r person yn dymuno hynny.

(6) Os yw person sydd wedi'i gofrestru am nawr yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad adran 33(5) y Ddeddf hon, bydd prif swyddog yr heddlu'n ei hysbysu'n ysgrifenedig bod angen iddo gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw ac, os yw'r person yn methu â gwneud hynny o fewn un diwrnod ar hugain o ddyddiad yr hysbysiad neu o fewn amser pellach o'r fath y gall y prif swyddog ei ganiatáu, yn peri i'w enw gael ei dynnu o'r gofrestr.

(7) Gall person sy'n anfodlon bod ei enw wedi cael ei dynnu o'r gofrestr, neu bod un o'i leoliadau busnes wedi cael ei dynnu, yn unol ag adran 44 y Ddeddf hon, apelio yn erbyn hynny.

(8) Lle bo prif swyddog yr heddlu'n peri i enw deliwr arf tanio gael ei dynnu o'r gofrestr, bydd yn hysbysu'r deliwr yn ysgrifenedig i ildio ei dystysgrif gofrestru [a'r gofrestr trafodion a gadwyd ganddo o dan adran 40 y Ddeddf hon] [(neu, os yw'r gofrestr yn cael ei gadw ar gyfrifiadur, copi o'r wybodaeth yn y gofrestr honno ar ffurf weladwy a darllenadwy)]; ac mae'n drosedd i'r deliwr fethu â gwneud hynny o fewn un diwrnod ar hugain o ddyddiad yr hysbysiad:

Ar yr amod bod apêl yn cael ei godi yn erbyn hyn, ni fydd yr is-adran hon yn berthnasol iddo oni bai bod yr apêl yn cael ei adael neu ei ddiystyru ac yna bydd yn berthnasol gyda'r disodliad, gan gyfeirio at ddyddiad yr hysbysiad, o gyfeiriad i'r dyddiad y cafodd yr apêl ei adael neu ei ddiystyru.